# RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

**MYNEGAI**


**Crynodeb o’r Rheolau Gweithdrefn Contract Allweddol …………………… 5**

**Hysbysebu, Hysbysiadau ac Adroddiadau ar gyfer caffael ……………….. 6**

**Rhan 1: Cyflwyniad a Diffiniadau ………………………………………...... 7**

**Rhan 2: Pob contract, beth bynnag fo'u gwerth …………………………..... 12**

1. Cymhwysiad a Chwmpas
2. Cydymffurfiaeth
3. Gwrthdaro Buddiannau
4. Atal Gweithgaredd Llygredig
5. Dyletswyddau Cyfarwyddwyr Gwasanaeth
6. Prisio Contractau
7. Defnyddio Contractau Corfforaethol
8. Cytundebau Fframwaith a Systemau Prynu Dynamig

**Rhan 3: Contractau o dan £5,000 (islaw lefel y Dyfynbris). 17**

9. Cystadleuaeth
10. Archebion Prynu
11. Awdurdod i Gontractio
12. Llofnod y Contract

**Rhan 4: Contractau o £5,000 i £24,999 (Dyfynbrisiau) 18**

13. Cystadleuaeth
14. Archebion Prynu
15. Awdurdod i Gontractio
16. Llofnod y Contract

**Rhan 5: Contractau o £25,000 i Drothwy'r UE (Tendrau) …………… 19**

17. Cystadleuaeth
18. Camau Rhagarweiniol
19. Archeb Brynu
20. Manyleb

21. Telerau ac Amodau Contract
22. Awdurdod i Wahodd a Gwerthuso Tendrau
23. Y Weithdrefn Dendro
24. Gwerthuso Tendrau
25. Dyfarnu'r Contract
26. Llofnod y Contract

**Rhan 6: Contractau dros Drothwy'r UE (Tendrau UE) …………………… 24**

27. Cystadleuaeth
28. Dewis y Llwybr Caffael
29. Manyleb
30. Telerau ac Amodau Contract
31. Awdurdod a Dirprwyaeth i Wahodd a Gwerthuso Tendrau a Dyfarnu Contractau
32. Y Weithdrefn Dendro
33. Eglurhad o Dendrau
34. Gwerthuso Tendrau
35. Diwygiadau a Newidiadau i Dendrau
36. Dyfarnu'r Contract
37. Bondiau a Gwarantau Rhiant-gwmnïau
38. Llofnod y Contract

**Rhan 7: Ar gyfer contractau sydd wedi cychwyn ….. 34**

39. Rheoli Contractau
40. Estyniadau i Gontractau
41. Addasu Contractau yn ystod eu tymor

**Rhan 8: Eithriadau i Reolau Gweithdrefn Contract ………………………….. 38**

# CRYNODEB O'R RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT ALLWEDDOL

| Cyfanswm Gwerth | Cystadleuaeth | Hysbysebu | Awdurdod i dendro a dyfarnu | Llofnod y Contract | CPR |
|---|---|---|---|---|---|
| **Hyd at £5,000** | Nid oes angen dyfynbrisiau cystadleuol, ond rhaid dangos gwerth am arian | Nid oes angen dim | Awdurdod dirprwyedig y Cyfarwyddwr Gwasanaeth | Cyfarwyddwr Gwasanaeth neu swyddog a awdurdodwyd ganddo/ganddi. | Rhan 2<br>Rhan 3 |
| **<u>DYFYNBRISIAU</u>**<br><br>**<u>£5,000 i £24,999</u>** | Tri dyfynbris cystadleuol | Dim | Awdurdod dirprwyedig y Cyfarwyddwr Gwasanaeth (Penderfyniad Swyddog) | Cyfarwyddwr Gwasanaeth neu swyddog a awdurdodwyd ganddo/ganddi. | Rhan 2<br>Rhan 4 |
| **<u>TENDRAU</u>**<br><br>**£25,000 i Drothwyon yr UE** | Ymarfer tendro agored - dim lleiafswm o gynigion. Gweithdrefn gyfyngedig - Gwahodd pum cyflenwr i dendro | Hysbyseb ar y Wefan Gaffael Genedlaethol<br><br>neu dewis o DPS neu Gytundeb Fframwaith | Nwyddau a Gwasanaethau – Awdurdod dirprwyedig y Cyfarwyddwr Gwasanaeth (Penderfyniad Swyddog)<br><br>Gwasanaethau Cyffyrddiad Ysgafn/Contractau Gwaith/Consesiwn Hyd at £499,999 - Awdurdod dirprwyedig y Cyfarwyddwr Gwasanaeth (Penderfyniad Swyddog)<br><br>Gwasanaethau Cyffyrddiad Ysgafn/Contractau Gwaith/Consesiwn rhwng £500,000 a'r trothwy UE perthnasol – Penderfyniad Deiliad Portffolio (ICMD) | Cyfarwyddwr Gwasanaeth neu swyddog a awdurdodwyd ganddo/ganddi<br><br>neu<br><br>Wedi'i selio gan y Cyngor<br><br>(fel y bo'n briodol) | Rhan 2<br>Rhan 5 |
| **<u>TENDRAU UE</u>**<br><br>**Dros Drothwyon yr UE** | Defnyddio Gweithdrefn Gyfyngedig/Agored (oni bai bod Caffael yn cynghori fel arall). | Hysbyseb OJEU a'r Wefan Gaffael Genedlaethol<br><br>Neu dewis o DPS neu Gytundeb Fframwaith | Nwyddau a Gwasanaethau rhwng £300,000 a £2m – Penderfyniad Deiliad Portffolio (ICMD)<br><br>Nwyddau a Gwasanaethau £2m+ - Penderfyniad y Cabinet.<br><br>Gwasanaethau Cyffyrddiad Ysgafn/Contractau Gwaith/Consesiwn dros y trothwy UE perthnasol – Penderfyniad y Cabinet. | Cyfarwyddwr Gwasanaeth neu swyddog a awdurdodwyd ganddo/ganddi<br><br>neu<br><br>Wedi'i selio gan y Cyngor<br><br>(fel y bo'n briodol) | Rhan 2<br>Rhan 6 |

## Crynodeb o'r Gofynion Hysbysebu, Hysbysiadau ac Adroddiadau

| | Gofynion Hysbysebu/Hysbysiadau | Cam hysbysebu | Hysbysiadau Dyfarnu Contract | Adroddiadau |
|---|---|---|---|---|
| **Hyd at £25k** | Nid oes angen dim | Nid oes angen dim | Nid oes angen dim | Nid oes angen dim ond rhaid cadw cofnodion |
| **Rhwng £25k a'r Trothwy** | Mae angen hysbyseb oni bai y defnyddir System Prynu Dynamig neu Gytundeb Fframwaith | Lle hysbysebir, rhaid cyhoeddi'r cyfle hefyd ar y Wefan Gaffael Genedlaethol. | Nid oes angen dim | Nid oes angen dim ond rhaid cadw cofnodion ar y System e-Gaffael. |
| **Dros y Trothwy** | Hysbysebu yn OJEU | Rhaid hysbysebu ar y Wefan Gaffael Genedlaethol trwy system e-Gaffael y Cyngor | Rhaid cyhoeddi i'r OJEU a'r Wefan Gaffael Genedlaethol cyn pen 30 diwrnod ar ôl dyfarnu'r contract, diwedd Cytundeb Fframwaith neu Drefniant yn ôl y Gofyn o System Prynu Dynamig. | Ar gyfer pob contract a ddyfarnwyd neu Gytundeb Fframwaith a System Prynu Dynamig a sefydlwyd, mae gofyniad i lunio adroddiad gyda gwybodaeth wedi'i nodi yn PCR 84 |
| **Trefniadau yn ôl y Gofyn o'r Cytundebau Fframwaith** | Nid oes angen dim | Nid oes angen dim | Nid oes angen dim | Nid oes angen ar gyfer Trefniadau yn ôl y Gofyn o'r Cytundeb Fframwaith oni bai bod y Gwasanaeth Caffael yn gofyn amdano. |

# RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACT

## Rhan 1
## Cyflwyniad

Mae Deddf Llywodraeth Leol 1972 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gael rheolau sefydlog ar gyfer ymrwymo i gontractau.  Y Rheolau Gweithdrefn Contract hyn yw'r rheolau sefydlog sy'n ofynnol o dan Ddeddf 1972.  Maent yn rhan o Gyfansoddiad y Cyngor ac, i bob pwrpas, dyma yw cyfarwyddiadau'r Cyngor i swyddogion ac aelodau ar gyfer ymrwymo i gontractau ar ran y Cyngor.

Pwrpas y Rheolau Gweithdrefn Contract hyn yw gosod rheolau clir ar gyfer prynu gwaith, nwyddau a gwasanaethau i'r Cyngor a sicrhau system sy’n agored, yn onest ac yn atebol, lle na fydd yn bosibl ceryddu na herio cywirdeb a thryloywder proses gaffael y Cyngor.  Yn unol â hynny, rhaid dilyn y Rheolau Gweithdrefn Contract hyn ar gyfer pob contract ar gyfer:

- cyflenwi nwyddau i'r Cyngor;
- cyflenwi gwasanaethau i'r Cyngor; a
- cyflawni gwaith i'r Cyngor.

Mae'n rhaid i’r Cyngor hefyd gydymffurfio â chyfraith yr UE mewn perthynas â chaffael cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i bob gweithdrefn contract, o ba bynnag werth, fod yn agored, yn deg ac yn dryloyw.   Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contractau hyn yn darparu sylfaen ar gyfer cystadleuaeth wir a theg mewn contractau, trwy ddarparu gweithdrefnau clir ac archwiliadwy. Os cânt eu dilyn, byddant yn rhoi hyder bod gan y Cyngor drefn gaffael sy'n gwbl atebol ac yn cydymffurfio â chyfraith yr UE.

Bydd dilyn y Rheolau Gweithdrefn Contract hefyd yn helpu i sicrhau bod y Cyngor yn sicrhau gwerth am arian pan fydd yn prynu gwaith, nwyddau neu wasanaethau.

Pwrpas y Rheolau Gweithdrefn Contract hyn yw amddiffyn buddiannau'r Cyngor, ei swyddogion a'i aelodau a chymunedau Sir Benfro.

Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ym mhob achos yn cadw awdurdod i dendro neu ddyfarnu contractau sy'n ymwneud â'r swyddogaethau gwasanaeth cymdeithasol a gynhwysir yn Atodlen 2 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod caffael gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn cynnwys ystod o ystyriaethau unigryw, sy'n wahanol a/neu'n ychwanegol i'r rhai sy'n berthnasol i gaffael nwyddau, gwasanaethau a gwaith eraill. Rhaid caffael contractau ar gyfer gwasanaethau o'r fath yn unol â Deddfwriaeth Caffael Cyhoeddus i'r graddau y mae'n berthnasol.

## Rhan 1
## Diffiniadau

| | |
|---|---|
| **Hysbysebwyd** | (a) mae’r Cyngor yn hysbysebu cyfle os yw'n gwneud unrhyw beth i roi'r cyfle yn gyhoeddus neu ddod â'r cyfle i sylw gweithredwyr economaidd yn gyffredinol neu i unrhyw ddosbarth neu ddisgrifiad o weithredwyr economaidd a allai fod yn benagored, gyda'r bwriad o dderbyn ymatebion gan weithredwyr economaidd sy'n dymuno cael eu hystyried ar gyfer dyfarnu'r contract; a<br><br>(b) yn unol â hynny, nid yw'r Cyngor yn hysbysebu cyfle lle mae'n sicrhau bod y cyfle ar gael i nifer o weithredwyr economaidd penodol sydd wedi'u dewis at y diben hwnnw yn unig (p'un ai’n ad hoc neu yn rhinwedd eu haelodaeth o ryw gategori caeedig fel Cytundeb Fframwaith), ni waeth sut y mae'n tynnu sylw’r gweithredwyr economaidd hynny i’r cyfle |
| **Dyfarnu contract** | yn golygu derbyn cynnig gan gyflenwr; |
| **Cabinet** | yn golygu Arweinydd y Cyngor ac aelodau eraill Gweithrediaeth y Cyngor, sydd i gyd yn ddeiliaid portffolio; |
| **Prif Swyddog Cyllid** | yn golygu’r swyddog a ddynodwyd o dan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972. Y Cyfarwyddwr Adnoddau yw'r Prif Swyddog Cyllid; |

**Contract Consesiwn** yn golygu naill ai contract gwaith neu wasanaethau er budd ariannol a drefnir yn ysgrifenedig wrth i un neu fwy o awdurdodau contractio ymddiried cyflawni gwaith neu ddarparu a rheoli gwasanaethau (heblaw cyflawni gwaith) i un neu fwy o weithredwyr economaidd, y mae'r ystyriaeth ar ei gyfer naill ai'n cynnwys yn unig yr hawl i ecsbloetio'r gwaith neu'r gwasanaethau sy'n destun y contract neu yn yr hawl honno ynghyd â thaliad; ac mae hynny'n cwrdd â gofynion 3(4) o Reoliadau Contractau Consesiwn 2016 (CCR 2016).

Mae Rheoliad 3(4) o CCR 2016 yn diffinio ymhellach nodweddion angenrheidiol y trefniant at ddibenion y gyfundrefn, sef:

(a) rhaid i ddyfarnu'r contract drosglwyddo i'r contractwr y risg weithredol wrth ecsbloetio'r gwaith neu'r gwasanaethau sy'n cwmpasu'r risg o ran galw neu gyflenwad neu'r ddau; a

(b) bod y rhan o'r risg a drosglwyddir i'r consesiynydd yn cynnwys dod i gysylltiad go iawn â mympwyon y farchnad, fel nad yw unrhyw golled amcangyfrifedig bosibl a ysgwyddir gan y consesiynydd yn ddim ond enwol neu ddibwys.

**Contract neu gontract** yn golygu'r fargen neu'r cytundeb rhwng y Cyngor a chyflenwr ar gyfer cyflenwi gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan gynnwys Contractau Consesiwn;

**dogfen contract** yn golygu’r ddogfen sy'n nodi telerau ac amodau'r contract. Mae archeb brynu yn ddogfen gontract. Er y gall cytundeb llafar fod yn gontract yn ôl y gyfraith, rhaid i gontractau ar gyfer y Cyngor bob amser gael eu cefnogi gan ddogfennau contract ysgrifenedig priodol;

**Contractiwr** gweler **Cyflenwr;**

**Gwefan Gaffael Genedlaethol** yn golygu porth ar y we a ddarperir gan, neu ar ran Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth am gontractau a ddyfarnwyd (https://www.sell2wales.gov.uk)

**contract corfforaethol** yn golygu contract ar gyfer cyflenwi gwaith, nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor cyfan yn hytrach nag ar gyfer maes gwasanaeth unigol e.e. deunydd ysgrifennu. Yn gyffredinol, mae contractau corfforaethol yn cael eu caffael a'u rheoli gan y Gwasanaeth Caffael.

**Cod Ymddygiad y Cyngor** yn golygu cod ymddygiad gweithwyr y Cyngor sy'n nodi'r safonau ymddygiad y mae'r Cyngor yn eu disgwyl gan ei weithwyr fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

**Rheoliadau Ariannol y Cyngor** yn golygu rheoliadau ariannol y Cyngor sy'n cynnwys yr holl atebolrwydd ariannol mewn perthynas â rhedeg y Cyngor, gan gynnwys cyllideb y Cyngor a fframwaith polisi'r Cyngor.

| | |
|---|---|
| **System Prynu Dynamig neu DPS** | yn golygu'r system y cyfeirir ati yn rheoliad 34 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015. Mae DPS yn weithdrefn sydd ar gael ar gyfer contractau ar gyfer gwaith, gwasanaethau a nwyddau sydd ar gael yn gyffredin ar y farchnad. Fel offeryn caffael, mae ganddo rai agweddau sy'n debyg i gytundeb fframwaith electronig, ond lle gall cyflenwyr newydd ymuno ar unrhyw adeg. |
| **System e-Gaffael** | yn golygu Bravo Solutions neu system olynol a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Caffael. |
| **Rheoliadau'r UE** | yn golygu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'u diwygiwyd) neu Reoliadau Contractau Consesiwn 2016 (fel sy'n berthnasol) fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd; |
| **Trothwy'r UE** | yn golygu gwerth mewn punnoedd sterling, a thros y gwerth hwnnw y mae Rheoliadau'r UE yn berthnasol iddo i gontract cyhoeddus arfaethedig |
| **Fframwaith Cytundeb** | yn golygu cytundeb rhwng un neu fwy o awdurdodau contractio ac un neu fwy o gyflenwyr sy'n pennu'r telerau ac amodau y bydd y cyflenwr yn ymrwymo i un neu fwy o gontractau penodol gydag awdurdod yn ystod tymor y cytundeb fframwaith, na ddylai fod yn fwy na 4 blynedd; |
| **Cyfundrefn Lawn** | yn golygu'r rheolau a'r gweithdrefnau o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 ac eithrio'r rhai ar gyfer y Gyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn |
| **Nwyddau** | gweler contract Cyflenwadau |
| **Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn** | yn golygu'r rheolau a'r gweithdrefnau ar gyfer y Gwasanaethau Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn a nodir ym Mhennod 3 o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'u diwygiwyd) |
| **Gwasanaethau Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn** | yn golygu'r gwasanaethau hynny a restrir yn Atodiad 1 o'r CPR |
| **Aelodau staff** | yn golygu unigolion sy'n cyflawni gwaith beunyddiol y Cyngor, naill ai'n barhaol neu'n dros dro, ac mae'n cynnwys swyddogion, deiliaid swyddi dros dro a staff asiantaeth ond nid ymgynghorwyr na chyflenwyr; |
| **Swyddog Monitro** | yn golygu'r swyddog a ddynodwyd o dan adran 5 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 i fonitro cydymffurfiad y Cyngor â'r gyfraith a rheolau gweinyddu. |
| **Swyddog** | yn golygu unigolyn sy'n dal swydd ar sefydliad y Cyngor; |
| **OJEU** | yn golygu Official Journal of the European Union; |

| | |
|---|---|
| **Deddfwriaeth caffael cyhoeddus** | yn cynnwys Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006, Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'u diwygiwyd), Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016, y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU), Cyfarwyddebau'r UE sy'n ymwneud â chontractau cyhoeddus, deddfwriaeth y DU sy'n effeithio ar gontractau'r sector cyhoeddus. ac unrhyw newid, ailddeddfu neu ddisodli unrhyw un ohonynt; |
| **Archeb Brynu** | yn golygu ffurflen archebu swyddogol y Cyngor ar gyfer prynu Gwaith, Nwyddau neu Wasanaethau; |
| **Dyfynbris** | yn golygu cynnig gan Gyflenwr i ymgymryd â chontract o £5,000 neu fwy ond llai na £25,000 mewn gwerth; |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | yn golygu Cyfarwyddwr |
| **Contract gwasanaethau** | yn golygu contract ar gyfer darparu gwasanaethau i'r Cyngor; |
| **SME (Busnes Bach a Chanolig)** | yn golygu menter sy'n dod o fewn categori microfusnesau, a busnesau bach a chanolig eu maint |
| **Budd Cymunedol** | yn golygu gweithgareddau, dulliau a gwasanaethau sy'n helpu i sicrhau buddion mesuradwy i ddiogelwch, iechyd, ffyniant ac ansawdd bywyd cymunedau lleol, yn enwedig:<br>• Cynaliadwyedd – effaith amgylcheddol<br>• Economi leol<br>• Cefnogi amcanion corfforaethol<br>• Effaith fuddiol ar gymunedau lleol – gan gynnwys hyrwyddo cydraddoldebau a chydlyniant cymunedol. |
| **Cyflenwr** | yn golygu cyflenwr gwaith, nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor; |
| **Contract cyflenwadau** | yn golygu contract ar gyfer gwerthu neu logi nwyddau i'r Cyngor ac mae'n cynnwys, lle bo hynny'n briodol, gosod nwyddau; |
| **Tendr** | yn golygu cynnig gan gyflenwr i ymgymryd â chontract gwerth £25,000 neu fwy; |
| **Rheoliadau TUPE** | yn golygu Rheoliadau Trosglwyddo Ymgymeriadau (Diogelu Cyflogaeth) 2006 ac unrhyw ddiwygio, ailddeddfu neu ddisodli'r rheoliadau hynny. |

| | |
|---|---|
| **Rhybudd tryloywder gwirfoddol** | yn golygu rhybudd a gyhoeddir yn OJEU gan Gaffael ar gais y cyfarwyddwr gwasanaeth, sy'n cynnwys enw a manylion cyswllt y Cyngor; disgrifiad o wrthrych y contract; cyfiawnhad dros benderfyniad y Cyngor i ddyfarnu'r contract heb ei hysbysebu yn OJEU; enw a manylion cyswllt y cyflenwr y dyfernir y contract iddo ac unrhyw wybodaeth arall y mae'r Gwasanaeth Caffael yn ei ystyried yn ddefnyddiol ei chynnwys; |
| **Contract gwaith** | yn golygu contract ar gyfer adeiladu, atgyweirio neu gynnal a chadw ased ffisegol e.e. adeilad neu ffordd; |
| **Ysgrifennu** | yn cynnwys gwybodaeth a drosglwyddir trwy ddulliau electronig lle mae'r cyd-destun yn gofyn amdani. |

## Rhan 2

## Pob contract, beth bynnag fo'u gwerth

### 1. CYMHWYSIAD A CHWMPAS

Mae'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn

Yn berthnasol i:

1.1 **Pob** contract ar gyfer cyflenwi gwaith, nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor, waeth beth fo'u gwerth gan gynnwys Contractau Consesiwn.

1.2 Contractau ar gyfer cyflogi ymgynghorwyr i ddarparu gwasanaethau i'r Cyngor sy'n rhan o brosiect ar wahân e.e. cynnal ymchwil, rhoi cyngor neu reoli prosiect neu ddim yn rhan o waith y Cyngor o ddydd i ddydd.

Ddim yn berthnasol i:

1.3 Contractau ar gyfer prynu neu werthu unrhyw fuddiant mewn tir (gan gynnwys buddion prydlesol).

1.4 Contractau ar gyfer penodi aelodau unigol o staff, gan gynnwys aelodau staff a gafwyd trwy asiantaethau cyflogaeth o dan gontract corfforaethol.

1.5 Cytundebau grant, naill ai pan fydd y Cyngor yn rhoi neu'n derbyn grant (Pan fydd y Cyngor yn caffael rhywbeth gan ddefnyddio arian grant a dderbynnir, bydd y CPR yn berthnasol oni bai bod darpariaethau eraill i fod yn berthnasol fel un o ofynion cyllidwr y grant).

1.6 Contractau ar gyfer cyflenwi gwaith, nwyddau neu wasanaethau i ysgolion sy'n caffael drostynt eu hunain **â'u cyllidebau eu hunain**. Fodd bynnag, mae ysgolion yn ddarostyngedig i Reoliadau'r UE a Rheoliadau Ariannol ar gyfer Ysgolion.

1.7 Cyflenwi gwaith, nwyddau a gwasanaethau **gan** y Cyngor.

1.8 Os yw contract yn cael ei gaffael mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol eraill, bydd Rheolau Gweithdrefn Contract yr awdurdod arweiniol yn berthnasol. Dylid ceisio sicrwydd bod yr awdurdod arweiniol yn cydymffurfio â'i reolau gweithdrefn contract ei hun. Pan fydd Rheoliadau'r UE yn berthnasol, mae'r Cyngor yn gyfrifol ar y cyd â'r awdurdodau lleol eraill am gydymffurfio â deddfwriaeth yr UE.

1.9 Nid yw CPR yn berthnasol i gytundebau cydweithredu rhwng Awdurdodau sy'n contractio.

### 2. CYDYMFFURFIAETH

2.1 Rhaid i bob contract yr ymrwymir iddo ar ran y Cyngor gydymffurfio â

- y Rheolau Gweithdrefn Contract hyn;
- Rheoliadau Ariannol y Cyngor; a

- holl ddeddfwriaeth berthnasol y DU a'r UE.

2.2 Mae pob cyfarwyddwr gwasanaeth yn gyfrifol am sicrhau bod ei adran yn cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn

2.3 **Rhaid** i bob aelod o staff ac ymgynghorwyr sy'n ymwneud mewn unrhyw fodd â rheoli neu oruchwylio caffael unrhyw waith, nwyddau neu wasanaethau i'r Cyngor gydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn a gall methu â chydymffurfio â'r Rheolau hyn arwain at gamau disgyblu ac achos cyfreithiol yn erbyn aelodau staff ac ymgynghorwyr dan sylw.

2.4 Ni ddylai gwaith ddechrau o dan gontract nes bod y ddogfen gontract wedi'i llofnodi gan y ddau barti (neu, os mai archeb brynu yw’r unig ddogfen gontract, nes bod yr archeb brynu wedi'i chyhoeddi).

2.5 Os yw cyfarwyddwr gwasanaeth yn dymuno enwebu is-gontractiwr penodol i brif gontractwr, rhaid dilyn y gweithdrefnau yn y Rheolau Gweithdrefn Contract hyn i ddewis yr is-gontractiwr yn ogystal â'r prif gontractwr.

## 3. GWRTHDARO BUDDIANNAU

3.1 Rhaid i bob aelod o staff osgoi unrhyw wrthdaro rhwng eu buddiannau eu hunain a buddiannau'r Cyngor. Mae’r gofyniad hwn yng Nghod Ymddygiad y Cyngor, ac mae holl weithwyr y Cyngor wedi'i lofnodi a chytuno i fod yn rhwym iddo ac mae'n cynnwys:

- peidio â derbyn rhoddion na lletygarwch gan sefydliadau neu gyflenwyr y mae'r Cyngor yn delio â nhw;
- peidio â gweithio i sefydliadau neu gyflenwyr y mae'r Cyngor yn delio â nhw;
- hysbysu'r Prif Weithredwr a'r cyfarwyddwr gwasanaeth perthnasol os oes gan swyddog gysylltiadau â (e.e. aelod o'r teulu neu ffrind agos yn gweithio i) sefydliad neu gyflenwr sy'n tendro neu'n rhoi dyfynbris am gontract gyda'r Cyngor neu sydd eisoes â chontract gyda'r Cyngor.

3.2 Os oes gan aelod etholedig o'r Cyngor neu aelod o staff fuddiant, ariannol neu fel arall, mewn contract neu gontract arfaethedig, rhaid iddo/iddi ddatgan hynny’n ysgrifenedig i'r cyfarwyddwr gwasanaeth cyn gynted ag y daw'n ymwybodol o'r buddiant. Rhaid i aelod etholedig neu aelod o staff sydd â buddiant mewn contract beidio â chymryd rhan yn y broses o gaffael neu reoli'r contract hwnnw.

## 4. ATAL GWEITHGAREDD LLYGREDIG

4.1 Gellir terfynu contract ar unwaith, ac adfer unrhyw golledion i'r Cyngor yn sgil y terfyniad gan y Cyflenwr, os yw'r Cyflenwr, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran (gyda gwybodaeth y Cyflenwr neu hebddo):

- yn cynnig neu'n addo neu'n rhoi mantais ariannol neu fantais arall i unrhyw aelod etholedig o'r Cyngor, unrhyw aelod o staff neu unrhyw ymgynghorydd mewn cysylltiad â'r contract; neu

- yn gofyn, cytuno i dderbyn neu dderbyn mantais ariannol neu fantais arall fel bod rhyw gam gweithredu mewn perthynas â'r contract yn cael ei gyflawni'n amhriodol.

Rhaid cynnwys datganiad i'r perwyl hwn ym mhob gwahoddiad i dendro neu ddyfynnu.

4.2 Rhaid i unrhyw aelod etholedig o'r Cyngor, aelod o staff neu ymgynghorydd sy'n dod yn ymwybodol neu sydd â rheswm i gredu bod cyflenwr neu ddarpar gyflenwr wedi cyflawni un o'r gweithredoedd llygredig y cyfeirir atynt yn CPR 4.1, roi gwybod i'r Swyddog Monitro a/neu'r Rheolwr Llywodraethu, Risg a Sicrwydd ar unwaith.

4.3 Tynnir sylw swyddogion at God Ymddygiad a Rheolau a Gweithdrefnau Disgyblu'r Cyngor. **Mae peidio â chydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn yn sail ar gyfer camau disgyblu a gellir ei ystyried yn gamymddwyn difrifol.**

## 5. DYLETSWYDDAU CYFARWYDDWYR GWASANAETH

5.1 Sicrhau bod pob contract yn ei adran yn cydymffurfio â Rheolau Gweithdrefn Contract, Rheoliadau Ariannol a'r holl ddeddfwriaeth caffael cyhoeddus berthnasol.

Cynllunio caffael a rheoli contractau yn ei adran i sicrhau bod contractau

- yn sicrhau gwerth am arian;
- yn cael eu gweithredu'n effeithiol, yn effeithlon ac yn economaidd; a
- yn cael eu gweithredu o fewn telerau'r contractau eu hunain, fel nad yw'r Cyngor mewn perygl o dorri contract.

5.2 Sicrhau bod pob contract yn cael ei ychwanegu at Gofrestr Contractau gyffredinol y Cyngor. Nid oes angen cofnodi contractau am lai na £25,000 yn y gofrestr.

5.3 Cadw cofnodion digonol yn ei adran i ddangos cydymffurfiad â Rheolau Gweithdrefn Contract, Rheoliadau Ariannol a'r holl ddeddfwriaeth berthnasol.

## 6. PRISIO CONTRACTAU

6.1 Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am bob contract roi amcangyfrif o werth y contract cyn ceisio unrhyw gynigion.

6.2 Gwerth contract yw'r **cyfanswm** y mae'r Cyngor yn disgwyl ei dalu am y contract, gan gynnwys unrhyw gyfnod ymestyn contract. Gall hyn fod yn gyfandaliad e.e. £250,000 neu daliad cyfnodol e.e. £50,000 y flwyddyn am gontract 5 mlynedd = £250,000. Os yw'r contract am dymor amhenodol, y gwerth yw'r swm y mae'r Cyngor yn disgwyl ei dalu neu ei dderbyn dros bedair blynedd.

Gwerth Contract Consesiwn fydd cyfanswm trosiant y consesiynydd a gynhyrchir dros gyfnod y contract, yn net o dreth ar werth, fel yr

amcangyfrifwyd gan yr awdurdod contractio, mewn ystyriaeth ar gyfer y gwaith a'r gwasanaethau sy'n destun y Contract Consesiwn ac ar gyfer y cyflenwadau sy'n atodol i waith a gwasanaethau o'r fath.

6.3 Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth beidio â cheisio osgoi cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn neu Reoliadau'r UE trwy rannu'r broses gaffael ar gyfer yr un gwaith, nwyddau neu wasanaethau neu rai tebyg yn gontractau llai ar wahân ac eithrio lle mae Rheoliadau'r UE yn caniatáu rhannu contractau yn lotiau. Os bydd yn sicrhau gwell gwerth am arian, rhaid i gontractau ar gyfer yr un gwaith, nwyddau neu wasanaethau, neu rai tebyg, lle bo hynny'n rhesymol ymarferol, gael eu crynhoi i mewn i un broses gaffael o werth mwy gyda lotiau lle bo hynny'n bosibl.

## 7. DEFNYDDIO CONTRACTAU CORFFORAETHOL A CHYDWEITHREDU

7.1 Os oes contract corfforaethol yn bodoli ar gyfer cyflenwi unrhyw waith, nwyddau neu wasanaethau, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth brynu trwy'r contract hwnnw, yn hytrach na dyfarnu contract ar wahân i'w adran ei hun. Gellir gweld rhestr o gontractau corfforaethol cyfredol ar y fewnrwyd neu gan y Gwasanaeth Caffael.

7.2 Lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol dylid caffael yn ymarferol mewn cydweithrediad ag awdurdodau cyhoeddus eraill a/neu feysydd gwasanaeth eraill yn y Cyngor.

## 8. CYTUNDEBAU FFRAMWAITH A SYSTEMAU PRYNU DYNAMIG

8.1 Rhaid ymgynghori â'r Gwasanaeth Caffael cyn cychwyn tendr neu ymuno neu brynu o Gytundeb Fframwaith neu System Prynu Dynamig a sefydlwyd gan sefydliad neu awdurdod cyhoeddus heblaw'r Cyngor lle bydd y gwariant yn fwy na Throthwy'r UE ac eithrio contractau Gwaith. lle mae'r gwerth dros £1m.

8.2 Rhaid ymgynghori â'r Gwasanaeth Caffael cyn sefydlu Cytundeb Fframwaith neu System Prynu Dynamig.

8.3 Mae awdurdod y Cabinet wedi'i ddirprwyo i'r Pennaeth Caffael i ymuno â chonsortia, grwpiau prynu, Systemau Prynu Dynamig, neu Gytundebau Fframwaith a sefydlwyd gan gorff arall, ac y mae'n rhaid ymgynghori â'r Pennaeth Caffael cyn ymuno neu brynu oddi wrth y consortia, grwpiau prynu, Systemau Prynu Dynamig neu Gytundebau Fframwaith hynny.

8.4 Bydd yn ofynnol o hyd cael penderfyniad ar y lefel briodol cyn dyfarnu contract a gaffaelir trwy gonsortia, grwpiau prynu, Systemau Prynu Dynamig, Rhestrau Cymeradwy neu Gytundebau Fframwaith (gweler CPR 31.2, 31.3 a 31.4). Mae hyn yn berthnasol i Systemau Prynu Dynamig, neu Gytundebau Fframwaith a sefydlwyd gan y Cyngor yn unig neu a sefydlwyd gan awdurdod cyhoeddus arall.

8.5 I ddewis cyflenwr ar gyfer contract penodol o dan Gytundeb Fframwaith sengl neu aml-gyflenwr neu i gynnal cystadleuaeth fach Cytundeb Fframwaith neu ddyfarnu contract o dan System Prynu Dynamig rhaid i'r cyfarwyddwr

gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Caffael, ddilyn y weithdrefn. a nodir yn y Cytundeb Fframwaith neu'r System Prynu Dynamig honno.

8.6 Rhaid hysbysu cyflenwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus a gymerodd ran mewn cystadleuaeth fach Cytundeb Fframwaith neu weithdrefn dyfarnu contract System Prynu Dynamig o'r penderfyniad i ddyfarnu'r contract penodol. Rhaid anfon y llythyr hysbysu trwy'r system e-Gaffael.

8.7 Rhaid gweithredu pob Cytundeb Fframwaith, cytundebau System Prynu Dynamig, a chontractau penodol yn unol â CPR 38.

8.8 Ni ddylai Cytundeb Fframwaith fod yn hirach na 4 blynedd oni chytunir yn benodol gyda’r Adran Gaffael.

8.9 Ar gyfer pob proses gaffael, rhaid cydymffurfio â'r gofynion ynghylch hysbysebu, hysbysiadau ac adroddiadau yn y tabl dan y pennawd Hysbysebu, Hysbysiadau ac Adroddiadau ar gyfer caffael.

## 8A TENDRAU ELECTRONIG AC E-GAFFAEL

8A.1 Dim ond trwy'r System e-Gaffael y gellir gwahodd tendrau. Rhaid i unrhyw aelod o staff neu ymgynghorydd sy'n gweithredu ar ran y Cyngor ac sy'n derbyn tendr trwy e-bost ei ddileu heb ei agor.

8A.2 Rhaid i unrhyw ddogfennau tendro y mae angen i'r cynigwyr eu llofnodi â llaw gael eu llofnodi â llaw gan gynrychiolydd awdurdodedig y cynigydd. Rhaid cyflwyno dogfennau o'r fath fel rhan o'r tendr ar ffurf electronig.

## 8B TELERAU CONTRACT

8B.1 Rhaid **i bob contract,** beth bynnag fo'u gwerth, gynnwys:

- disgrifiad clir a chynhwysfawr o'r gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau sydd i'w cyflenwi (y fanyleb);
- y pris i'w dalu neu'r incwm neu'r gyfran sydd i'w derbyn gan y Cyngor o dan Gontractau Consesiwn;
- lefelau priodol a digonol o yswiriant
- yr amser neu'r amseroedd y mae'r contract i gael ei gyflawni o’i fewn/o’u mewn;
- darpariaeth sy'n caniatáu i'r Cyngor ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd o'r contract ar gyfer atal a chanfod twyll;
- darpariaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr gydymffurfio â cheisiadau o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 am wybodaeth sy'n ymwneud â'r contract; a
- hawl i'r Cyngor derfynu'r contract ar unwaith os bydd gweithgaredd llygredig ac i'r Cyngor adennill ei golledion sy'n deillio o'r terfynu.

8B.2 Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Cyflenwr gynnal lefelau yswiriant priodol a digonol, mewn ymgynghoriad â Rheolwr Yswiriant y Cyngor, ar gyfer atebolrwydd cyflogwr, atebolrwydd cyhoeddus, atebolrwydd

cynhyrchion, yr holl risgiau/gwaith contract ac yswiriant indemniad proffesiynol. Oni chytunir yn wahanol gan y Rheolwr Yswiriant, bydd y lefelau lleiaf o yswiriant

- £5 miliwn ar gyfer yswiriant atebolrwydd cyflogwr
- £5m ar gyfer atebolrwydd cyhoeddus ac yswiriant atebolrwydd cynhyrchion
- £2 filiwn ar gyfer yswiriant indemniad proffesiynol.
  Rhaid i bob polisi gynnwys cymal indemniad prifswm.
- Sicrhau fod y cyflenwr yn dal yr yswiriant angenrheidiol ar ddechrau'r contract, yn adnewyddu'r polisïau yn ôl yr angen yn ystod cyfnod y contract ac, yn dilyn pob adnewyddiad, yn darparu manylion a ddilyswyd gan ei yswiriwr neu frocer o'i yswiriant ar gyfer cofnodion y Cyngor.

## 8C TALIADAU DAN Y CONTRACT

8C.1 Fel rheol gyffredinol, rhaid i **bob** contract, beth bynnag fo'u gwerth, ddarparu ar gyfer talu gan y Cyngor **ar ôl** cyflenwi'r gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau. Mae taliadau cyfnodol neu fesul cam o dan gontract yn dderbyniol, gallant gymell perfformiad gan y Cyflenwr ac yn achos y mwyafrif o gontractau Gwaith, mae'n ofynnol yn ôl y gyfraith. Yn eithriadol, a dim ond gyda chydsyniad y Cyfarwyddwr Adnoddau, caiff contract ddarparu ar gyfer talu cyn perfformiad contract.

## Rhan 3 – O DAN LEFEL DYFYNBRIS
## Contractau o dan £5,000

### 9. CYSTADLEUAETH

9.1 Nid oes angen i'r cyfarwyddwr gwasanaeth gael dyfynbrisiau cystadleuol ar gyfer contractau o werth llai na £5,000, ond rhaid iddo/iddi allu dangos bod y Cyngor yn derbyn gwerth am arian. Lle bo hynny'n briodol, rhaid cynnal ymgynghoriad perthnasol.

### 10. ARCHEBION PRYNU A THELERAU AC AMODAU CONTRACT

10.1 Rhaid i bob contract fod yn ysgrifenedig a rhaid cyhoeddi archeb brynu ar gyfer pob contract, oni bai ei fod yn cael ei dalu gyda cherdyn prynu.

10.2 Dylid cyfeirio at CPR 8.B.

### 11. AWDURDOD I GONTRACTIO – islaw lefel y Dyfynbris

11.1 Mae gan gyfarwyddwyr gwasanaeth awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i gontractau sydd islaw lefel y Dyfynbris, ar yr amod bod cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer y gwariant hwnnw.

### 12. LLOFNOD Y CONTRACT – islaw lefel y Dyfynbris

12.1 Rhaid i gontractau sydd islaw lefel y Dyfynbris gael eu llofnodi i ac ar ran y Cyngor gan y cyfarwyddwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am y contract neu swyddog a awdurdodwyd ganddo.

## Rhan 4 – LEFEL Y DYFYNBRIS

## Contractau rhwng £5,000 a £24,999

**CYSTADLEUAETH**

13.1 Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth gael o leiaf tri dyfynbris cystadleuol ar gyfer contractau dros £5,000 ond llai na £25,000 mewn gwerth a rhaid iddo gynnal trywydd archwilio o'r broses gaffael. Lle bo hynny'n briodol, rhaid cynnal ymgynghoriad perthnasol.

**14. ARCHEBION PRYNU A THELERAU AC AMODAU CONTRACT**

10.1 Rhaid i bob contract fod yn ysgrifenedig a rhaid cyhoeddi archeb brynu ar gyfer pob contract.

14.2 Dylid cyfeirio at CPR 8.B.

**15. AWDURDOD I GONTRACTIO – o fewn lefel y Dyfynbris**

15.1 Mae gan gyfarwyddwyr gwasanaeth awdurdod dirprwyedig i ymrwymo i gontractau sydd o fewn lefel y Dyfynbris, ar yr amod bod cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer y gwariant hwnnw.

**16. LLOFNOD Y CONTRACT – o fewn lefel y Dyfynbris**

16.1 Rhaid i gontractau sydd o fewn lefel y Dyfynbris gael eu llofnodi i ac ar ran y Cyngor gan y cyfarwyddwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am y contract neu swyddog a awdurdodwyd ganddo.

## Rhan 5 - TENDRAU
## Contractau o £25,000 i Drothwy'r UE (Tendrau)

**17. CYSTADLEUAETH**

17.1 Rhaid ceisio tendrau cystadleuol ar gyfer contractau gwerth £25,000 neu fwy

**18. CAMAU RHAGARWEINIOL - Tendrau**

18.1 Rhaid cynnal Asesiad Risg Cynaliadwy (SRA) cychwynnol gyda'r Gwasanaeth Caffael ac, os oes angen, cynnal SRA llawn. Nid yw hyn yn berthnasol i gystadlaethau bach o dan Fframwaith neu DPS.

18.2 Lle bo hynny'n briodol, rhaid cynnal ymgynghoriad perthnasol.

**19. ARCHEB BRYNU**

19.1 Rhaid i bob contract fod yn ysgrifenedig a rhaid cyhoeddi archeb brynu ar gyfer pob contract.

**20. MANYLEB - Tendrau**

20.1 Rhaid paratoi manyleb glir a chynhwysfawr o ofynion y Cyngor mewn perthynas â'r gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau sydd i'w cyflenwi.

20.2 Dylai'r fanyleb ymgorffori meini prawf mesuradwy a, hyd y bo modd, ansawdd a pherfformiad gwrthrychol i alluogi'r cyfarwyddwr gwasanaeth i weld a yw'r cyflenwr yn cwrdd â gofynion y Cyngor.

20.3 Ni ddylid gwahodd ymgynghorwyr sy'n cynorthwyo i baratoi manyleb i dendro am y contract lle mae'n debygol o ystumio cystadleuaeth.

**21. TELERAU AC AMODAU CONTRACT - Tendrau**

21.1 Dylid cyfeirio at CPR 8.B.

**22. AWDURDOD I WAHODD A GWERTHUSO TENDRAU - Tendrau**

22.1 Yn ddarostyngedig i CPR 22.2, gellir cynnwys y penderfyniad i wahodd a gwerthuso tendrau am gontract a'r penderfyniad i ddirprwyo dyfarnu'r contract mewn un adroddiad i ddeiliad y portffolio.

22.2 Mae gan gyfarwyddwyr gwasanaeth awdurdod dirprwyedig i wahodd a gwerthuso tendrau a dyfarnu'r contractau a ganlyn:

- Nwyddau a Gwasanaethau hyd at Drothwy'r UE

- Gwasanaethau Cyffyrddiad Ysgafn, Contractau Gwaith a Chonsesiwn hyd at £499,999

Ar yr amod bod cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer y gwariant hwnnw. Rhaid i'r penderfyniad i wahodd a gwerthuso tendrau a'r penderfyniad i ddyfarnu contract gael ei gofnodi ar ddwy ffurflen Penderfyniad Swyddog ar wahân. Fodd bynnag, pan fo'r galw o Gytundeb Fframwaith un cyflenwr yna dim ond penderfyniad i ddyfarnu'r contract sy'n ofynnol ar yr amod bod y Cytundeb Fframwaith wedi'i sefydlu gan y Cyngor neu ei gymeradwyo i'w ddefnyddio o dan CPR 8.3.

22.3 Gall deiliad portffolio awdurdodi'r penderfyniad i wahodd a gwerthuso tendrau a/neu ddyfarnu'r contractau a ganlyn:

- Nwyddau a Gwasanaethau rhwng £300,000 a £2 filiwn

- Gwasanaethau Cyffyrddiad Ysgafn, Contractau Gwaith a Chonsesiwn rhwng £500,000 a'r trothwy UE perthnasol.

Ar yr amod bod contractau o'r fath o fewn cwmpas ei bortffolio a bod cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer y gwariant hwnnw.

**23. Y WEITHDREFN DENDRO - Tendrau**

23.1 Rhaid dilyn y gweithdrefnau tendro canlynol wrth osod contractau o £25,000 i werth y Trothwy UE perthnasol.

23.2a Ar gyfer yr holl gontractau Gwasanaethau a Chyflenwadau (ac eithrio Gwasanaethau Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn) rhwng £25,000 a Throthwy'r UE ar gyfer Gwasanaethau a Chyflenwadau, rhaid dilyn gweithdrefn agored a rhaid gosod y cyfle ar y Wefan Gaffael Genedlaethol.

23.2b Ar gyfer contractau Gwaith, contractau Gwasanaethau Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn neu Gontractau Consesiwn rhwng £25,000 a'r Trothwy UE perthnasol, gellir defnyddio gweithdrefn dau gam gyda PQQ. Gall y cyfarwyddwr gwasanaeth ddewis rhestr fer o leiaf **bum** cyflenwr i'w gwahodd i dendro.

23.3 Ni ddylid cyhoeddi PQQ ar gyfer contractau islaw Trothwy'r UE ar gyfer Gwasanaethau a Chyflenwadau (ac eithrio Gwasanaethau Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn), fodd bynnag, gellir defnyddio un i gael gwybodaeth neu dystiolaeth sydd eu hangen ar y Cyngor at ddibenion asesu a yw'r sawl sy'n tendro yn cwrdd â gofynion neu isafswm safonau addasrwydd, gallu, statws cyfreithiol neu statws ariannol dim ond ar yr amod bod pob cwestiwn o'r fath yn berthnasol i destun y caffael ac yn gymesur.

23.4 Er mwyn sicrhau cystadleuaeth wirioneddol, y nifer lleiaf o Gyflenwyr a wahoddir i dendro yw pump neu, os oes cynigydd mewnol, chwech. Os oes llai na phump addas wedi mynegi diddordeb mewn cael eu gwahodd i dendro, yna gellir lleihau'r nifer lleiaf o Gyflenwyr i'w gwahodd i dendro fel sy'n briodol yn amodol ar sicrhau gwerth am arian.

23.5 Rhaid i'r gwahoddiad i dendro gael ei gyhoeddi gan y Gwasanaeth Caffael.

23.6 Rhaid i'r cyfarwyddiadau i'r sawl sy'n tendro nodi

- y dyddiad a'r amser diweddaraf i'r Cyngor dderbyn tendrau.
- rhaid dychwelyd tendrau i'r Cyngor trwy'r System e-Gaffael. Bydd tendrau sy'n cyrraedd y Cyngor ar ôl y dyddiad a'r amser diweddaraf

a nodwyd, **beth bynnag fo'r amgylchiadau**, yn cael eu cadw heb eu hagor tan ar ôl i'r tendrau a dderbyniwyd yn iawn gael eu hagor a'u cofnodi, a chânt eu hagor a'u hystyried gan y Cyngor dim ond os yw'r Pennaeth Caffael yn tystio ei fod yn fodlon nad yw'r tendr wedi ennill unrhyw fantais dros dendrau eraill yn sgil yr oedi.;

- bydd unrhyw gontract yn cael ei derfynu ar unwaith, ac unrhyw golledion i'r Cyngor sy'n deillio o'r terfyniad yn cael eu hadfer o'r Cyflenwr, os yw'r Cyflenwr, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran (gyda gwybodaeth y Cyflenwr neu hebddo):

  (1) yn cynnig neu'n addo neu'n rhoi mantais ariannol neu fantais arall i unrhyw aelod etholedig o'r Cyngor, unrhyw aelod o staff neu unrhyw ymgynghorydd mewn cysylltiad â'r contract; neu

  (2) yn gofyn, cytuno i dderbyn neu dderbyn mantais ariannol neu fantais arall fel bod rhyw gam gweithredu mewn perthynas â'r contract yn cael ei gyflawni'n amhriodol.

- Unrhyw delerau eraill y bydd y Gwasanaeth Caffael yn gofyn amdanynt.

23.7 Rhaid caniatáu amser priodol ar gyfer cyflwyno tendrau. Yr isafswm yw pedwar diwrnod ar ddeg o ddyddiad y gwahoddiad i dendro.

23.8 Rhaid i newidiadau i ddogfennau gwahoddiad i dendro, a wneir ar ôl i'r gwahoddiadau gael eu hanfon, gael y pennawd clir "**ITT Amendment**" a rhaid eu hanfon at yr holl Gyflenwyr sydd wedi cael gwahoddiad i dendro. Rhaid rhifo un neu fwy o welliannau yn olynol. Rhaid anfon gwelliannau allan mewn digon o amser i ganiatáu i gyflenwyr addasu eu tendrau cyn dyddiad cau'r tendrau. Os oes angen, rhaid ymestyn y cyfnod tendro i ganiatáu ar gyfer hyn.

23.9 Hyd nes y bydd y contract wedi'i ddyfarnu, mae'r wybodaeth a geir wrth agor tendrau yn gyfrinachol i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses agor a'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwerthuso'r tendrau. Rhaid cynnal cyfrinachedd a rhoi gwybod i Swyddog Monitro'r Cyngor am unrhyw doriad.

23.10. Rhaid trin tendr nad yw'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau i'r sawl sy'n tendro neu'n amodol fel un nad yw'n cydymffurfio a'i wrthod. **Ni ddylid gwerthuso tendrau nad ydynt yn cydymffurfio oni bai bod Caffael yn cynghori fel arall.**

23.11 Ni chaniateir trafodaethau gyda chyflenwyr sydd wedi tendro am gontract gan gyfraith yr UE ac felly maent yn anghyfreithlon, ar gyfer contractau â gwerth islaw Trothwy'r UE. Ar ôl i'r tendrau gael eu hagor, **a chyn i'r tendrau gael eu sgorio**, efallai y bydd y cyfarwyddwr gwasanaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r sawl sy'n tendro roi eglurhad ar un neu fwy o dendrau. Rhaid dogfennu cwestiynau ac atebion eglurhad yn llawn a chynnwys yr eglurhad perthnasol yn y ddogfen gontract. Ni ddylai eglurhad wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r tendr. Ni ddylid sgorio tendrau nes bod eglurhad wedi'i gwblhau.

23.12 Tendr Cyflenwr yw eu cynnig i'r Cyngor, y gall y Cyngor ei dderbyn fel y mae'n sefyll yn amodol ar CPR 32.8. Os bydd y sawl sy'n tendro yn ceisio newid ei Dendr ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer derbyn tendrau, rhaid rhoi cyfle iddo sefyll yn ôl neu dynnu ei Dendr gwreiddiol yn ôl. Gellir derbyn cywiriad i wall rhifyddol amlwg.

## 24. GWERTHUSO TENDRAU

24.1 Fel rheol dylid gwerthuso tendrau ar sail y 'mwyaf manteisiol yn economaidd' i'r Cyngor. Yn eithriadol, a dim ond gyda chaniatâd y Pennaeth Caffael, gellir gwerthuso tendrau ar sail pris yn unig. Rhaid nodi sail y gwerthusiad yn y gwahoddiad i dendro. Os mai sail y gwerthusiad yw'r 'mwyaf manteisiol yn economaidd', rhaid nodi'r meini prawf ar gyfer gwerthuso yn y gwahoddiad i dendro, yn nhrefn blaenoriaeth ddisgynnol, gyda'r pwysiadau i'w rhoi iddynt.

24.2 Os mai pris yn unig yw sail y gwerthusiad, dim ond y Tendr isaf (os mai'r **Cyngor** sydd i wneud taliad) ar yr amod bod yr elfen ansawdd yn y gymhareb gwerth am arian yn cael ei chadarnhau neu'r Tendr uchaf (os yw'r taliad i'w wneud **i'r** Cyngor) ar yr amod y cadarnheir bod yr elfen ansawdd yn y gymhareb gwerth am arian fydd yn cael ei derbyn.

24.3 Os mai'r 'mwyaf manteisiol yn economaidd' yw sail y gwerthusiad, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth drefnu i banel gwerthuso priodol ystyried y tendrau a'u gwerthuso yn erbyn y meini prawf a'r pwysiadau a nodwyd yn y gwahoddiad i dendro. Gall y panel gwerthuso (yn ddarostyngedig i wiriadau gwrthdaro buddiannau a chytundebau cyfrinachedd priodol) gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a/neu ymgynghorwyr allanol ond ni chaiff gynnwys aelodau etholedig o'r Cyngor.

24.4 Rhaid gwerthuso pob tendr dilys a dderbynnir.

24.5 Rhaid derbyn tendrau yn unol â chanlyniad y gwerthusiad neu ddim o gwbl.

24.6 Os na dderbynnir tendrau addas, rhaid ymgynghori â Chaffael ynghylch sut y gellir caffael y gwaith, y cyflenwadau neu'r gwasanaeth dan sylw.

24.7 Ni ddylid derbyn tendr sy'n fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd. Os yw tendr yn fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth gael dyraniad ychwanegol o arian yn unol â Rheoliadau Ariannol **cyn** y gellir derbyn y tendr.

24.8 Os yw'r holl dendrau dilys yn rhy uchel i'w derbyn ac nad oes unrhyw ddyraniad pellach o arian ychwanegol, gall y cyfarwyddwr gwasanaeth ddileu rhan o'r fanyleb a gofyn i'r holl gyflenwyr a wahoddir i dendro ail-brisio eu tendrau, trwy gyflwyno ffurf newydd o tendr. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth nodi'r hyn a ddilewyd mewn bil gostyngiadau neu ddogfen arall, i'w ymgorffori yn y ddogfen gontract.

24.09 Os bydd y contract yn arwain at gymhwyso'r Rheoliadau TUPE, mae'n rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth sicrhau bod y tendrwr llwyddiannus wedi ymdrin â phob mater mewn perthynas â gweithwyr, gan gynnwys cyflog, amodau cyflogaeth a hawliau a buddiannau phensiwn, yn ei Dendr a bydd yn rhoi holl indemniadau priodol yn y contract. Bydd y Cyngor yn rhoi indemniadau priodol mewn perthynas â materion yn ymwneud â gweithwyr **dim ond** os yw gweithwyr yn cael eu trosglwyddo o gyflogaeth y Cyngor i'r tendrwr llwyddiannus a ddim mewn unrhyw amgylchiadau eraill.

24.10 Mae'r cyfarwyddwr gwasanaeth yn gyfrifol am lunio adroddiad tendr llawn, a ddylai:

- gadarnhau bod y weithdrefn dendro wedi cydymffurfio â'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn;
- rhestru'r tendrau a wahoddwyd ac a dderbyniwyd;
- rhestru'r meini prawf gwerthuso a'r pwysiadau; a
- dangos sut sgoriwyd tendrau wrth eu gwerthuso.

Rhaid anfon yr adroddiad tendr at y sawl sy'n gwneud penderfyniad cyn gwneud y penderfyniad i ddyfarnu'r contract.

## 25. DYFARNU'R CONTRACT - Tendrau

25.1 Dylid cyfeirio at CPR 22.

25.2 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y penderfyniad i ddyfarnu'r contract gael ei wneud, rhaid i'r gwasanaeth caffael ysgrifennu i roi gwybod i'r tendrwyr llwyddiannus ac aflwyddiannus o'r penderfyniad hwnnw.

25.3 Dylai'r cyfarwyddwr gwasanaeth sicrhau fod y dyfarniad yn cael ei gyhoeddi yn y Wefan Gaffael Genedlaethol o fewn amser rhesymol wedi dyfarnu'r contract

25.4 Gellir dal gwybodaeth yn ôl rhag ei chyhoeddi os byddai ei rhyddhau:

(a) yn rhwystro gorfodi'r gyfraith neu a fyddai fel arall yn groes i fudd y cyhoedd,

(b) yn rhagfarnu buddiannau masnachol cyfreithlon gweithredwr economaidd penodol, boed yn gyhoeddus neu breifat, neu

(c) yn gallu rhagfarnu cystadleuaeth deg rhwng gweithredwyr economaidd.

## 26. LLOFNOD Y CONTRACT - Tendrau

26.1 **Ni ddylid** caniatáu i'r Cyflenwr ddechrau gweithio ar y contract nes bod dogfennau'r contract wedi'u llofnodi neu wedi'u selio gan y ddau barti fel sy'n briodol.

.26.2 Rhaid i gontractau sydd islaw Trothwy'r UE perthnasol, nad yw'n ofynnol eu selio, gael eu llofnodi i ac ar ran y Cyngor gan y cyfarwyddwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am y contract neu swyddog a awdurdodwyd ganddo/ganddi.

## Rhan 6 - TENDRAU UE
## Contractau dros Drothwy'r UE

### 27. CYSTADLEUAETH

27.1 Rhaid ceisio tendrau cystadleuol ar gyfer contractau dros Drothwy'r UE.

### 28. DEWIS Y LLWYBR CAFFAEL - Tendrau UE

28.1 Rhaid cytuno ar strategaeth fasnachol gyda Chaffael **cyn** ceisio awdurdod i wahodd tendrau. Rhaid cwblhau hyn ymhell cyn dechrau'r broses dendro a rhaid iddi fod yn y fformat a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Caffael.

28.2 **Ar yr un pryd** â chyflwyno'r cais caffael er mwyn i Caffael ddatblygu strategaeth fasnachol, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth roi cyfarwyddiadau llawn i'r Gwasanaethau Cyfreithiol i ddrafftio neu gymeradwyo amodau a thelerau contract yn unol â CPR 30.

28.3 Rhaid cynnal Asesiad Risg Cynaliadwy (SRA) cychwynnol gyda'r Gwasanaeth Caffael ac, os oes angen, cynnal SRA llawn.

28.4 Lle bo'n briodol, mae'n rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth gynnal ymgynghoriad perthnasol.

### 29. MANYLEB - Tendrau UE

29.1 Rhaid paratoi manyleb briodol, sy'n nodi disgrifiad clir a chynhwysfawr o ofynion y Cyngor o ran y gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau sydd i'w cyflenwi.

29.2 Rhaid nodi pob gwaith, nwyddau a gwasanaeth trwy gyfeirio at safonau Ewropeaidd, neu safonau cenedlaethol os na osodir safonau Ewropeaidd. **Ni ddylid** nodi cynhyrchion neu weithgynhyrchwyr a enwir.

> *Nodyn cynghori: Gellir nodi cynhyrchion a enwir os ychwanegir y geiriau "neu gyfwerth" ar ôl y cynnyrch a enwir, ond mae'n well disgrifio'r nodweddion sy'n ofynnol yn y cynnyrch.*

29.32 Dylai'r fanyleb ymgorffori meini prawf mesuradwy a, hyd y bo modd, ansawdd a pherfformiad gwrthrychol i alluogi'r cyfarwyddwr gwasanaeth i weld a yw'r cyflenwr yn cwrdd â gofynion y Cyngor.

29.4 Rhaid cael yr holl gyngor a chymorth proffesiynol a thechnegol angenrheidiol wrth baratoi'r fanyleb, er mwyn sicrhau dogfen gynhwysfawr sy'n mynegi gofynion y Cyngor ac yn amddiffyn ei fuddiannau. Ni ddylid gwahodd ymgynghorwyr sy'n cynorthwyo i baratoi manyleb i dendro am y contract. Dylai'r bobl sy'n paratoi'r fanyleb, fel rheol, fod yn rhan o'r panel sy'n gwerthuso tendrau.

## 30. TELERAU AC AMODAU CONTRACT

30.1 Ar gyfer contractau dros Drothwy'r UE ar gyfer Gwasanaethau a Chyflenwadau a chontractau sy'n werth £1m ar gyfer Contractau Gwaith a Chonsesiwn, rhaid rhoi cyfarwyddiadau llawn cyn gynted â phosibl a bob amser heb fod yn hwyrach na chyflwyno'r cais caffael i'r Gwasanaethau Cyfreithiol i drafftio telerau ac amodau contract neu i gymeradwyo telerau ac amodau safonol y contract e.e. NEC.

30.2 Ni ddylid cyhoeddi hysbysiad contract yr OJEU neu hysbyseb arall sy'n gwahodd tendrau nes bod yr holl ddogfennau caffael ar gael yn electronig gyda mynediad uniongyrchol anghyfyngedig a llawn trwy'r System e-Gaffael.

## 31. AWDURDOD A DIRPRWYAETH I WAHODD A GWERTHUSO TENDRAU A DYFARNU CONTRACTAU

31.1 Yn ddarostyngedig i CPR 31.2, gellir cynnwys y penderfyniad i wahodd a gwerthuso tendrau am gontract a'r penderfyniad i ddirprwyo dyfarnu'r contract mewn un adroddiad i ddeiliad y portffolio neu’r Cabinet fel y bo’n briodol.

31.2 Gall deiliad portffolio awdurdodi’r penderfyniad i wahodd a gwerthuso tendrau a/neu ddyfarnu'r contractau a ganlyn:

- Nwyddau a Gwasanaethau rhwng £300,000 a £2 filiwn ar yr amod bod contractau o'r fath o fewn cwmpas ei bortffolio a bod cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer y gwariant hwnnw. Gall deiliaid portffolio ddirprwyo awdurdod i gyfarwyddwyr gwasanaeth ddyfarnu contractau ar gyfer nwyddau a gwasanaethau rhwng £300,000 a £2 filiwn.

31.3 Dim ond y Cabinet all awdurdodi gwahodd a gwerthuso tendrau a/neu ddyfarnu'r contractau a ganlyn:

- Nwyddau a Gwasanaethau dros £2 filiwn

- Gwasanaethau Cyffyrddiad Ysgafn, Contractau Gwaith a Chonsesiwn uwchben y trothwy UE perthnasol.

Gall y Cabinet ddirprwyo awdurdod i deilydd portffolio neu gyfarwyddwr gwasanaethau i ddyfarnu contract uwchben y gwerthoedd, ar yr amod bod cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer y gwariant hwnnw. Bydd y penderfyniad yn cael ei gofnodi yng nghofnodion y Cabinet.

31.4 Ni ddylid cyhoeddi hysbysiad contract yr OJEU na hysbyseb arall sy'n gwahodd tendrau nes bod y cyfarwyddwr gwasanaeth, deiliad portffolio neu'r Cabinet (fel y bo'n briodol) wedi penderfynu gwahodd a gwerthuso tendrau a bod y penderfyniad wedi'i gofnodi'n ysgrifenedig ar y ffurflen benderfynu briodol.

## 32. Y WEITHDREFN DENDRO - Tendrau UE

32.1 Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Caffael, ddilyn y gweithdrefnau tendro a nodir yn Rheoliadau'r UE wrth osod contractau dros Drothwy perthnasol yr UE.

32.2 Rhaid i’r cyfarwyddwr gwasanaeth mewn ymgynghoriad â Gwasanaethau Caffael sefydlu a yw contract yn dod o dan y Gyfundrefn Lawn neu'r Gyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn.

- Pan fydd y contract yn dod o dan y Gyfundrefn Lawn, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth ddefnyddio gweithdrefn agored neu gyfyngedig oni bai bod Gwasanaethau Caffael yn cytuno ar y defnydd o weithdrefn arall.
- Pan fydd y contract yn dod o fewn Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 neu'r Gyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn, yna gall y cyfarwyddwr gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol, bennu'r gweithdrefnau tendro sydd i'w defnyddio.

32.3 Ni ddylid cyhoeddi hysbysiad contract yr OJEU neu hysbyseb arall sy'n gwahodd tendrau nes bod yr holl ddogfennau caffael ar gael yn electronig gyda mynediad uniongyrchol anghyfyngedig a llawn trwy'r System e-Gaffael.

32.4 Er mwyn sicrhau'r ymateb gorau i hysbyseb, efallai y bydd y cyfarwyddwr gwasanaeth yn hysbysu cyflenwyr priodol o flaen llaw bod hysbyseb ar y gweill.

32.5 Rhaid hysbysu’r cyfle contract yn OJEU a’i gyhoeddi yn y Wefan Gaffael Genedlaethol ar gyfer y Gyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn, y Gyfundrefn Lawn a Chontractau Consesiwn. Rhaid i hysbysiadau contract OJEU gael eu gosod gan y Gwasanaeth Caffael yn unig. Ni ddylai cyfarwyddwyr gwasanaeth neu ymgynghorwyr osod hysbysiadau contract OJEU eu hunain.

32.6 Os bydd y Cyngor yn dilyn y weithdrefn gyfyngedig, rhaid gwahodd nifer digonol o Gyflenwyr i dendro er mwyn sicrhau cystadleuaeth ddilys. Y nifer lleiaf yw pump. Os oes llai na phum fynegiant o ddiddordeb mewn cael eu gwahodd i dendro neu lai na phum PQQ boddhaol, yna gellir gostwng y nifer lleiaf o Gyflenwyr i'w gwahodd i dendro, gyda chymeradwyaeth y Gwasanaeth Caffael.

32.7 Cyn gynted â phosibl ar ôl dewis y rhestr fer o Gyflenwyr i'w gwahodd i dendro, dylai unrhyw Gyflenwyr na ddewiswyd gael eu hysbysu yn ysgrifenedig o'r rhesymau pam na chawsant eu dethol. Os yw Cyflenwr na chafodd ei ddewis yn gofyn am wybodaeth bellach ynghylch pam y bu’n aflwyddiannus, rhaid i’r cyfarwyddwr gwasanaeth wneud trefniadau ar gyfer y dad-friffio ar unwaith.

32.8A Bydd cyfarwyddwyr gwasanaeth yn sicrhau bod cynnydd yr holl weithdrefnau caffael yn cael ei ddogfennu.

32.8B Rhaid i gyfarwyddwyr gwasanaeth sicrhau eu bod yn cadw digon o ddogfennaeth i gyfiawnhau penderfyniadau a wneir ym mhob cam o'r weithdrefn gaffael, fel dogfennaeth ar:

(a) cyfathrebu â chynigwyr a thrafodaethau mewnol,

(b) paratoi'r dogfennau caffael,

(c) deialog neu drafod os o gwbl,

(d) dewis a dyfarnu'r contract.

32.8C Rhaid i gyfarwyddwyr gwasanaeth sicrhau y cedwir y ddogfennaeth am gyfnod o chwe blynedd o leiaf ar ôl dyddiad gorffen y contract.

32.9 Rhaid i'r gwahoddiad i dendro gael ei gyhoeddi gan y Gwasanaeth Caffael.

32.10 Rhaid i'r cyfarwyddiadau i'r sawl sy'n tendro nodi

- y dyddiad a'r amser diweddaraf i'r Cyngor dderbyn tendrau.
- rhaid dychwelyd tendrau trwy'r System e-Gaffael. Bydd tendrau sy'n cyrraedd y Cyngor ar ôl y dyddiad a'r amser diweddaraf a nodwyd, **beth bynnag fo'r amgylchiadau**, yn cael eu cadw heb eu hagor tan ar ôl i'r tendrau a dderbyniwyd yn iawn gael eu hagor a'u cofnodi, a chânt eu hagor a'u hystyried gan y Cyngor dim ond os yw'r Pennaeth Caffael yn tystio ei fod yn fodlon nad yw'r tendr wedi ennill unrhyw fantais dros dendrau eraill yn sgil yr oedi;
- Rhaid trin unrhyw dendr nad yw'n cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau i'r sawl sy'n tendro neu'n amodol fel un nad yw'n cydymffurfio a'i wrthod. **Ni ddylid gwerthuso tendrau nad ydynt yn cydymffurfio oni bai bod Caffael yn cynghori fel arall** a
- bydd unrhyw gontract yn cael ei derfynu ar unwaith, ac unrhyw golledion i'r Cyngor sy'n deillio o'r terfyniad yn cael eu hadfer o'r cyflenwr, os yw'r cyflenwr, neu unrhyw un sy'n gweithredu ar ei ran (gyda gwybodaeth y cyflenwr neu hebddo):

  (1) yn cynnig neu'n addo neu'n rhoi mantais ariannol neu fantais arall i unrhyw aelod etholedig o'r Cyngor, unrhyw aelod o staff neu unrhyw ymgynghorydd mewn cysylltiad â'r contract; neu

  (2) yn gofyn, cytuno i dderbyn neu dderbyn mantais ariannol neu fantais arall fel bod rhyw gam gweithredu mewn perthynas â'r contract yn cael ei gyflawni'n amhriodol.
- Unrhyw delerau eraill y bydd y Gwasanaeth Caffael yn gofyn amdanynt.

32.11 Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth ganiatáu digon o amser i gyflwyno tendrau. Rhaid i'r amser a ganiateir gydymffurfio â Rheoliadau perthnasol yr UE a deddfwriaeth.

32.12 Rhaid i newidiadau gan y cyfarwyddwr gwasanaeth i ddogfennau gwahoddiad i dendro, a wneir ar ôl i'r gwahoddiadau gael eu hanfon, gael y pennawd clir "**ITT Amendment**" a rhaid eu hanfon at yr holl gyflenwyr sydd wedi cael gwahoddiad i dendro. Os oes mwy nag un gwelliant, rhaid eu rhifo yn olynol. Rhaid anfon gwelliannau allan mewn digon o amser i ganiatáu i gyflenwyr addasu eu tendrau a beth bynnag heb fod yn hwyrach na phum diwrnod gwaith clir cyn cau'r tendrau. Os oes angen, rhaid ymestyn y cyfnod tendro i ganiatáu ar gyfer hyn.

32.13 Hyd nes y bydd y contract wedi'i ddyfarnu, mae'r wybodaeth a geir wrth agor tendrau yn gyfrinachol i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses agor a'r rhai sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gwerthuso'r tendrau. Rhaid cynnal cyfrinachedd a rhoi gwybod i Swyddog Monitro'r Cyngor am unrhyw doriad.

32.14 Rhaid i dendrau gael eu hagor trwy system e-Gaffael y Cyngor gan aelod o staff y Gwasanaeth Caffael sydd wedi'i awdurdodi i fod yn ddilyswr y tendr hwnnw.

## 33. EGLURHAD O DENDRAU - Tendrau UE

33.1 Ni chaniateir trafodaethau gyda chyflenwyr sydd wedi tendro am gontract gan gyfraith yr UE ac felly maent yn anghyfreithlon ac eithrio yn unol â Rheoliadau Contractau Consesiwn 2016 a'r weithdrefn a drafodwyd neu'r weithdrefn gystadleuol gyda thrafodaeth o dan Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 (fel y'i diwygiwyd). Ar ôl i'r tendrau gael eu hagor, **a chyn i'r tendrau gael eu sgorio, rhaid** i'r cyfarwyddwr gwasanaeth drafod gyda Chaffael a oes angen i'r sawl sy'n tendro roi eglurhad ar un neu fwy o dendrau.

33.2 Rhaid i unrhyw eglurhad sicrhau bod y Cyngor wedi deall y tendr a gyflwynwyd yn llawn. Ni ddylai eglurhad wneud unrhyw newidiadau sylweddol i'r tendr.

33.3 Rhaid dogfennau cwestiynau ac atebion eglurhad yn llawn ar ffurf a gymeradwywyd gan y Gwasanaethau Caffael a rhaid ymgorffori'r eglurhad perthnasol yn y ddogfen gontract.

33.4 Ni ddylid gwerthuso a sgorio tendrau nes bod eglurhad wedi'i gwblhau.

## 34. GWERTHUSO TENDRAU - Tendrau UE

34.1 Fel rheol dylid gwerthuso tendrau ar sail pa un yw'r 'mwyaf manteisiol yn economaidd' i'r Cyngor. Yn eithriadol, a dim ond gyda chaniatâd y Gwasanaeth Caffael, gellir gwerthuso tendrau ar sail pris yn unig ar yr amod bod yr elfen ansawdd yn y gymhareb gwerth am arian yn cael ei chadarnhau. Rhaid nodi sail y gwerthusiad yn yr hysbysiad contract a gyhoeddir yn OJEU ac mewn unrhyw hysbyseb arall. Rhaid nodi sail y gwerthusiad hefyd yn y gwahoddiad i dendro. Os mai sail y gwerthusiad yw'r 'mwyaf manteisiol yn economaidd', rhaid nodi'r meini prawf ar gyfer gwerthuso yn y gwahoddiad i dendro, yn nhrefn blaenoriaeth ddisgynnol, gyda'r pwysiadau i'w rhoi iddynt a'r dull sgorio.

> *Nodyn cynghori: Gall y meini prawf ar gyfer gwerthuso gynnwys ansawdd, pris, teilyngdod technegol, nodweddion esthetig a swyddogaethol, nodweddion amgylcheddol, costau rhedeg, cost-effeithiolrwydd, gwasanaethau ar ôl gwerthu, cymorth technegol, dyddiad cyflawni, cyfnod cyflawni, a'r cyfnod cwblhau.*

34.2 Os mai sail y gwerthusiad yw pris yn unig ar yr amod bod yr elfen ansawdd yn y gymhareb gwerth am arian yn cael ei chadarnhau, dim ond y tendr isaf (os mai'r **Cyngor** sydd i wneud taliad) neu'r tendr uchaf (os yw'r taliad i'w wneud **i'r** Cyngor) fydd yn cael ei derbyn.

34.3 Os mai'r 'mwyaf manteisiol yn economaidd' yw sail y gwerthusiad, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth drefnu i banel gwerthuso priodol ystyried y tendrau a'u gwerthuso yn erbyn y meini prawf a'r pwysiadau a nodwyd yn y

gwahoddiad i dendro. Gall y panel gwerthuso (yn ddarostyngedig i wiriadau gwrthdaro buddiannau a chytundebau cyfrinachedd priodol) gynnwys defnyddwyr gwasanaeth a/neu ymgynghorwyr allanol ond ni chaiff gynnwys aelodau etholedig o'r Cyngor. Dylai'r panel gwerthuso, fel rheol, gynnwys y bobl hynny sydd wedi cael mewnbwn sylweddol i lunio'r fanyleb.

34.4 Rhaid gwerthuso pob tendr dilys a dderbynnir.

34.5 Rhaid derbyn tendrau yn unol â chanlyniad y gwerthusiad neu ddim o gwbl.

34.6 Os na dderbynnir tendrau addas neu os derbynnir tendrau anarferol o isel, rhaid i’r cyfarwyddwr gwasanaeth ymgynghori â Chaffael ynghylch sut y gellir caffael y gwaith, y cyflenwadau neu'r gwasanaeth dan sylw.

34.7 Ni ddylid derbyn tendr sy'n fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd. Os yw tendr yn fwy na'r gyllideb a ddyrannwyd, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth gael dyraniad ychwanegol o arian yn unol â Rheoliadau Ariannol **cyn** y gellir derbyn y tendr.

34.8 Os yw'r holl dendrau dilys yn rhy uchel i'w derbyn ac nad oes unrhyw ddyraniad pellach o arian ychwanegol, gall y cyfarwyddwr gwasanaeth ddileu rhan o'r fanyleb a gofyn i'r holl gyflenwyr a wahoddir i dendro ail-brisio eu tendrau, trwy gyflwyno ffurf newydd o tendr. Mewn achosion o'r fath, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth nodi'r hyn a ddilewyd mewn bil gostyngiadau neu ddogfen arall, i'w ymgorffori yn y ddogfen gontract.

34.9 Os bydd y contract yn arwain at gymhwyso'r Rheoliadau TUPE, mae'n rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth sicrhau bod y tendrwr llwyddiannus wedi ymdrin â phob mater mewn perthynas â gweithwyr, gan gynnwys cyflog, amodau cyflogaeth a hawliau a buddiannau phensiwn, yn ei dendr a bydd yn rhoi holl indemniadau priodol yn y contract. Bydd y Cyngor yn rhoi indemniadau priodol mewn perthynas â materion yn ymwneud â gweithwyr **dim ond** os yw gweithwyr yn cael eu trosglwyddo o gyflogaeth y Cyngor i'r tendrwr llwyddiannus a ddim mewn unrhyw amgylchiadau eraill.

## 35. DIWYGIADAU A NEWIDIADAU I DENDRAU - Tendrau UE

35.1 Yn ddarostyngedig i Reoliadau 34.8 a 34.9, tendr Cyflenwr yw ei gynnig i'r Cyngor, y caiff y Cyngor ei dderbyn fel y mae. Ar ôl iddo gyflwyno ei Dendr ac wedi cynnig eglurhad os oes angen, ni chaniateir i’r sawl sy’n tendro wneud unrhyw newid i swm y tendr nac unrhyw un o'i gynigion tendro.

35.2 Os bydd y sawl sy’n tendro yn ceisio newid ei gynnig ar ôl y dyddiad olaf ar gyfer derbyn tendrau, rhaid rhoi cyfle iddo sefyll yn ôl neu dynnu ei dendr gwreiddiol yn ôl. Gellir derbyn cywiriad i wall rhifyddol amlwg mewn Tendr pris sefydlog.

35.3 Rhaid i dendr sy’n amodol neu y mynegir ei fod yn amodol ar y Cyngor yn derbyn addasiadau i'r fanyleb neu delerau ac amodau'r contract. gael ei drin fel un nad yw'n cydymffurfio a'i wrthod. **Ni ddylid gwerthuso tendrau nad ydynt yn cydymffurfio.** Nid yw hyn yn atal y Cyngor rhag gwahodd cynigion amrywiol. Os gwahoddir bidiau amrywiol, rhaid ei gwneud yn ofynnol i dendrwyr gyflwyno cais cyfeirio gorfodol yn seiliedig ar y fanyleb a'r telerau

ac amodau a gynhwysir yn y gwahoddiad i dendro, fel y gellir cymharu'r holl gynigion yn deg.

35.4 Cyn i Dendr gael ei dderbyn, gall cyfarwyddwr gwasanaeth ofyn i bob un sy'n tendro ddal ei dendrau ar agor am gyfnod hirach. Dylai tendrau bob amser aros ar agor i'w derbyn am gyfnod o naw deg diwrnod o'r dyddiad diweddaraf ar gyfer derbyn tendrau, neu unrhyw gyfnod arall y mae'r cyfarwyddwr gwasanaeth yn ei ystyried yn briodol, a rhaid i ffurf y tendr wneud hyn yn glir.

## 36. DYFARNU'R CONTRACT - Tendrau UE

36.1 Dylid cyfeirio at CPR 31 mewn perthynas ag awdurdod i ddyfarnu contract.

36.2 Rhaid cynhyrchu adroddiad tendr llawn, cyfrinachol mewn fformat a gymeradwywyd gan y Gwasanaeth Caffael, (nid oes angen yr adroddiad ar gyfer contractau yn ôl y galw o Gytundeb Fframwaith, neu Systemau Prynu Dynamig oni bai bod y Gwasanaeth Caffael yn gofyn yn benodol amdano).

36.3 Rhaid anfon yr adroddiad tendr at Gaffael a'r sawl sy'n gwneud penderfyniad cyn gwneud y penderfyniad i ddyfarnu'r contract. Rhaid nodi ar yr adroddiad tendro "DIM I'W GYHOEDDI".

36.4 Rhaid i'r argymhelliad i'r sawl sy'n gwneud penderfyniad i ddyfarnu'r contract gynnwys enw'r tendrwr llwyddiannus, hyd y contract ac unrhyw opsiynau ar gyfer estyniad a phris neu bris amcangyfrifedig y contract.

36.5 Cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y penderfyniad i ddyfarnu'r contract gael ei wneud, a chymryd gweithdrefnau galw i mewn i ystyriaeth, rhaid i'r gwasanaeth caffael ysgrifennu i roi gwybod i'r tendrwr llwyddiannus o'r penderfyniad hwnnw. Rhaid gyrru'r llythyr hwn trwy system e-Gaffael y Cyngor.

36.6 Ar yr un pryd â'r hysbysiad yn CPR 36.5, rhaid i'r gwasanaeth caffael ysgrifennu at bob **tendrwr aflwyddiannus**, gan eu hysbysu o:

- enw'r tendrwr llwyddiannus
- y rhesymau dros y penderfyniad i ddyfarnu, gan gynnwys nodweddion a manteision cymharol y tendr llwyddiannus;
- y meini prawf dyfarnu, unrhyw is-feini prawf, y pwysiadau a roddwyd iddynt a'r fethodoleg sgorio;
- y sgôr a gafwyd gan y tendrwr llwyddiannus yn y gwerthusiad;
- y sgôr a gafwyd gan y tendrwr aflwyddiannus sy'n yn cael ei hysbysu (ond dim eraill);
- y dyddiad y gwnaed y penderfyniad i ddyfarnu;
- effaith y cyfnod segur a'r dyddiad na fydd y Cyngor yn ymrwymo i'r contract cyn hynny; a
- y dyddiad yr anfonir y llythyr.

Rhaid anfon y llythyr hysbysu at y tendrwyr aflwyddiannus trwy system e-Gaffael y Cyngor.

36.7. Ar yr un pryd â’r hysbysiad yn CPR 36.5, rhaid i'r Gwasanaeth Caffael ysgrifennu at **bob ymgeisydd a wahoddwyd i dendro ond na wnaethant gyflwyno tendr,** yn ei hysbysu o:

- enw’r tendrwr llwyddiannus
- y rhesymau dros y penderfyniad i ddyfarnu, gan gynnwys nodweddion y tendr llwyddiannus;
- y meini prawf dyfarnu, unrhyw is-feini prawf, y pwysiadau a roddwyd iddynt a'r fethodoleg sgorio;
- y sgôr a gafwyd gan y tendrwr llwyddiannus yn y gwerthusiad;
- y dyddiad y gwnaed y penderfyniad i ddyfarnu;
- effaith y cyfnod segur a'r dyddiad na fydd y Cyngor yn ymrwymo i'r contract cyn hynny; a
- y dyddiad yr anfonir y llythyr.

Rhaid anfon y llythyr hysbysu at y cyflenwyr a wahoddwyd ond na chyflwynodd dendr trwy system e-Gaffael y Cyngor.

36.8 Rhaid i’r hysbysiadau yn CPR 36.6 a 36.7 gael eu cymeradwyo gan y Gwasanaeth Caffael cyn eu cyhoeddi.

36.9 Os yw tendrwr aflwyddiannus yn gofyn am wybodaeth bellach ynghylch pam y bu’n aflwyddiannus, rhaid i’r cyfarwyddwr gwasanaeth wneud trefniadau ar gyfer y dad-friffio ar unwaith.

36.10 Ni ddylid llofnodi na selio dogfen y contract (fel y bo'n briodol) cyn i ddeg diwrnod ddod i ben (y cyfnod segur) yn dilyn y dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad o'r penderfyniad i ddyfarnu'r contract. ‘Efallai na fydd cyfnod segur yn berthnasol o dan gystadleuaeth fach ar gyfer trefniadau yn ôl y galw oni nodir yn benodol yn y Cytundeb Fframwaith neu'r System Prynu Dynamig'

36.11 Efallai y cyhoeddir hysbysiad tryloywder gwirfoddol (heblaw am estyniad neu addasiad fel y'i diffinnir yn CPR 40 a 41) yn OJEU yn unig gyda chaniatâd ymlaen llaw gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau. Os cyhoeddir hysbysiad tryloywder gwirfoddol, rhaid peidio â llofnodi na selio'r ddogfen gontract (fel y bo'n briodol) cyn i ddeg diwrnod ddod i ben (y cyfnod segur) ar ôl y dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad yn OJEU.

36.12 Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Caffael, drefnu i gyhoeddi hysbysiad dyfarnu contract yn OJEU, cyn pen 30 diwrnod ar ôl dyfarnu'r contract neu ddiwedd Cytundeb Fframwaith neu System Prynu Dynamig. (Nid oes unrhyw ofyniad i gyhoeddi hysbysiad OJEU am gontract yn ôl y gofyn o Gytundeb Fframwaith).

36.13 Rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth sicrhau, o fewn amser rhesymol i ddyfarnu'r contract, fod y dyfarniad yn cael ei gyhoeddi ar y Wefan Gaffael Genedlaethol gyda'r wybodaeth ganlynol o leiaf:

(a) enw’r contractwr;

(b) y dyddiad yr ymrwymwyd i'r contract;

(c) gwerth y contract;

(d) a yw'r contractwr yn fusnes bach a chanolig.

36.14 Gellir dal gwybodaeth yn ôl rhag ei chyhoeddi os byddai ei rhyddhau:

(a) yn rhwystro gorfodi'r gyfraith neu a fyddai fel arall yn groes i fudd y cyhoedd,

(b) yn rhagfarnu buddiannau masnachol cyfreithlon gweithredwr economaidd penodol, boed yn gyhoeddus neu breifat, neu

(c) yn gallu rhagfarnu cystadleuaeth deg rhwng gweithredwyr economaidd.

## 37. BONDIAU A GWARANTAU RHIANT-GWMNÏAU

37.1 Ar gyfer pob contract werth £5m neu fwy, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth benderfynu, gan gymryd cyngor priodol, a yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau'r Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyflenwr ddarparu gwarant rhiant-gwmni. Os nad oes gan y cyflenwr riant-gwmni neu os na chymeradwyir y rhiant-gwmni o dan CPR 37.2, efallai y bydd yn ofynnol o dan yr amgylchiadau hynny i gyflenwr ddarparu bond. Os oes angen bond, rhaid i swm y bond fod yn ddim llai na deg y cant o gyfanswm gwerth y contract neu'r cyfan o werth y contract blynyddol, oni chytunir yn wahanol gan y Prif Swyddog Cyllid.

37.2 Rhaid i'r rhiant-gwmni neu'r mechnïwr am fond gael ei gymeradwyo gan y Prif Swyddog Cyllid.

37.3 Rhaid cynnwys sbesimen o warant a bond y rhiant-gwmni yn y ddogfennaeth gwahoddiad i dendro.

## 38. LLOFNOD Y CONTRACT - Tendrau UE

38.1 Rhaid i bob contract, bond, gwarant, cytundeb neu drafodiad nad oes unrhyw ystyriaeth ohonynt gael eu cyflawni fel gweithred dan sêl yn unol â'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn.

Fodd bynnag, ni fydd hyn yn berthnasol i gontractau ar gyfer yswiriant pan ddaw'r contract i rym trwy gyflwyno atodlen o’r yswiriant a dogfennau polisi i'r Cyngor gan yr yswiriwr.

Gall Gwasanaethau Cyfreithiol gyfarwyddo bod yn rhaid cyflawni contractau eraill fel gweithredoedd.

38.2 Rhaid argraffu Sêl Gyffredin y Cyngor ar bob contract a gyflawnir fel gweithredoedd a rhaid i swyddog y Cyngor a awdurdodwyd gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Phwyllgorau fod yn dyst i hyn.

38.3 Rhaid i bob contract nad yw o fewn cwmpas CPR 38.1 gael ei lofnodi i ac ar ran y Cyngor gan un o swyddogion y Cyngor.

# Rhan 7

# Ar gyfer contractau sydd wedi cychwyn

## 39. RHEOLI CONTRACTAU

39.1 **Ni** ddylai contract gychwyn nes bod y dogfennau contract wedi'u llofnodi neu eu selio a'u dyddio. Rhaid i gyfarwyddwyr gwasanaeth ganiatáu amser ar gyfer hyn yn y rhaglen gontract.

39.2 Cyn pen deg diwrnod o ddyddiad y contract, os yw'r contract werth £25,000 neu fwy, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth ychwanegu manylion y contract ar gofrestr contractau'r Cyngor a chofnodi'r canlynol:

- y gwaith, y nwyddau neu'r gwasanaethau sydd i'w cyflenwi;
- enw'r cyflenwr;
- gwerth y contract;
- y dyddiadau cychwyn a chwblhau;
- unrhyw opsiynau ymestyn
- statws cyfredol y contract

Rhaid cynnal a diweddaru'r manylion hyn.

39.3 Y cyfarwyddwr gwasanaeth fydd rheolwr y contract ar gyfer y contractau y mae ef/hi yn gyfrifol amdanynt hyd at Drothwy'r UE, ond caiff awdurdodi swyddog arall i fod â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am reoli'r contract. Ar gyfer contractau dros Drothwy'r UE, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth benodi rheolwr contract sydd â'r sgiliau a'r profiad priodol.

39.4 Mae'r rheolwr contract yn gyfrifol am:

- reoli'r contract a sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni yn unol â'i delerau a'i amodau;
- monitro perfformiad y cyflenwr a chynnal adolygiadau canol contract i bennu gwerth parhaus am arian;
- gwneud y Cyflenwr yn ymwybodol bod disgwyl iddynt gydymffurfio â pholisïau cyfle cyfartal, gwrth-dwyll a llygredd, safonau iaith Gymraeg, chwythu chwiban a gwrth-wyngalchu arian y Cyngor;
- sicrhau bod y Cyflenwr yn cynnal y polisïau yswiriant sy'n ofynnol gan y contract;
- cytuno ar unrhyw fân newidiadau i'r contract (ond nid newidiadau i brisiau) cyn iddynt gael eu cyflawni;
- cadw cofnod o'r holl brisiadau, taliadau, hawliadau, monitro, newidiadau a thystysgrifau o dan y contract;
- tynnu iawndal penodedig, os yw'n briodol;

- cysylltu â'r Gwasanaeth Caffael i ddiweddaru statws eu contract ar Gofrestr Contractau'r Cyngor;
- mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol a'r rheolwr cyllid priodol, cydsynio i is-gontractau, aseiniadau i gyflenwyr newydd a newidiadau i gyflenwyr newydd; a
- rheoli'r cyfnod pontio rhwng diwedd un contract a dechrau contract arall

*Nodyn cynghori: Argymhellir bod penderfyniadau sy'n awdurdodi newidiadau i gontract neu is-gontractau, aseiniadau neu ddyfarniadau yn cael eu cofnodi ar ffurflen penderfyniad swyddog.*

39.5 **Rhaid** i'r cyfarwyddwr gwasanaeth ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyfreithiol i ystyried sefyllfa gyfreithiol y Cyngor:

- cyn i unrhyw gontract gael ei derfynu neu ei atal;
- os bydd cais am daliad nad yw'n glir o fewn telerau ac amodau'r contract;
- cyn didynnu o daliadau sy’n ddyledus i Gyflenwr neu ddal taliad yn ôl o Gyflenwr;
- yn ddarostyngedig i Reoliadau 40 a 41, cyn gwneud unrhyw estyniad i gontract neu amrywio cwmpas contract.

39.6 Os yw'r gwariant terfynol o dan gontract yn fwy na'r swm wedi'i gyllidebu o 10% neu fwy, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog Cyllid, baratoi a chyflwyno adroddiad i'r deiliad portffolio priodol ac i gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu.

39.7 Er mwyn sicrhau gwerth am arian a chystadleuaeth, rhaid terfynu contractau am dymor amhenodol neu dreigl ar ddiwedd deng mlynedd ymhob achos a chaffael contract newydd.

## 40. ESTYNIADAU I GONTRACTAU

40.1 Mae estyniad i gontract yn gyfnod ychwanegol ar ddiwedd y contract, pan fydd y gwaith neu'r gwasanaethau sydd i'w cyflawni yn ailadrodd y gwaith neu'r gwasanaethau o dan y contract gwreiddiol. 40.2 Oni bai bod contract yn cynnwys opsiwn yn benodol i ymestyn ei dymor, neu fod yr estyniad yn dod o fewn paramedrau addasiad o dan CPR 41, ni chaniateir ymestyn y contract hwnnw. Bydd y contract yn peidio â bodoli ar ddiwedd ei dymor.

40.3 Os yw contract yn cynnwys opsiwn yn benodol i ymestyn ei dymor **a**:

- mae hysbysiad yr OJEU neu hysbysebion eraill ar gyfer y contract yn nodi y gellir dyfarnu contract estyn; a
- roedd amcangyfrif o werth y contract yn yr hysbysiad OJEU neu hysbysebion eraill yn ystyried y contract estynedig posibl; a
- mae'r estyniad yn cynrychioli gwerth da am arian i'r Cyngor,

yna gall y cyfarwyddwr gwasanaeth wneud penderfyniad i ddyfarnu'r estyniad.

Ar ôl i'r estyniad ddod i ben, bydd y contract hwnnw'n peidio â bodoli.

40.4 40.5 Rhaid bod tystiolaeth ysgrifenedig o bob estyniad yn unol â'r contract mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Caffael.

## 41. ADDASU NEU AMRYWIO CONTRACTAU YN YSTOD EU TYMOR

41.1 Ar yr amod bod cyllideb wedi'i dyrannu ar gyfer y gwariant, gellir dangos gwerth am arian, a bod awdurdod wedi'i roi gan y penderfynwr priodol, gellir addasu neu amrywio contractau a Chytundebau Fframwaith heb weithdrefn gaffael newydd yn unol â'r darpariaethau a ganlyn:

41.1.1 ar gyfer contractau a Chytundebau Fframwaith sydd o fewn cwmpas Rheoliadau'r UE, yn unol â thelerau y Rheoliadau UE perthnasol; a

41.1.2 ar gyfer contractau a Chytundebau Fframwaith sydd y tu allan i gwmpas Rheoliadau'r UE, yn yr achosion a ganlyn:

41.1.2.1 lle mae'r newid mewn gwerth yn gymharol fach - llai na 10% o werth y contract ar gyfer gwasanaethau a chyflenwadau neu o dan 15% o werth y contract ar gyfer gwaith ac nad yw'n newid natur gyffredinol y contract (DS gwerth y contract i'w ddefnyddio yw'r gwerth wedi'i ddiweddaru os yw'r contract yn cynnwys cymal mynegeio. Pan wneir sawl addasiad olynol bydd y gwerth newid yn gronnus); neu

41.1.2.2 pan ddarparwyd ar gyfer yr addasiadau, waeth beth fo'u gwerth ariannol, yn y dogfennau caffael cychwynnol mewn cymalau adolygu clir, manwl gywir a diamwys, a all gynnwys cymalau neu opsiynau adolygu prisiau, ar yr amod bod cymalau o'r fath:

(i) yn nodi cwmpas a natur addasiadau neu opsiynau posibl yn ogystal â'r amodau y caniateir eu defnyddio oddi tanynt, a

(ii) ddim yn darparu ar gyfer addasiadau neu opsiynau a fyddai'n newid natur gyffredinol y contract neu'r Cytundeb Fframwaith; neu

41.1.2.3 lle mae angen gwaith, gwasanaethau neu gyflenwadau ychwanegol gan y contractwr presennol (ac nid yw'r contract yn darparu mecanwaith ar gyfer hyn) ac ni ellir newid y contractwr am resymau economaidd neu dechnegol fel cyfnewidiadwyedd neu ryngweithredu â'r offer, gwasanaethau neu osodiadau presennol a gafodd eu caffael o dan y caffaeliad cychwynnol; a lle byddai newid y contractwr yn achosi anghyfleustra sylweddol neu ddyblygu costau, ar yr amod nad yw'r cynnydd mewn prisiau yn fwy na 50%; neu

41.1.2.4 lle mae angen addasiad (ac nid yw'r contract yn darparu mecanwaith) oherwydd amgylchiadau annisgwyl, nid yw'r newid yn newid natur gyffredinol y contract ac nid yw'r cynnydd mewn prisiau yn fwy na 50%; neu

41.1.2.5 pan fydd contractwr newydd yn disodli'r un yr oedd y Cyngor wedi dyfarnu'r contract iddo i ddechrau o ganlyniad i gymal adolygu diamwys neu opsiwn neu yn dilyn ailstrwythuro corfforaethol, ansolfedd neu uno, ac mae'r contractwr newydd yn dal i fodloni'r meini prawf dethol gwreiddiol. Mae'r eithriad hwn ar gael dim ond lle nad oes addasiad sylweddol arall i'r contract; neu

41.1.2.6 fel arall pan nad yw'r addasiad yn sylweddol ac mai dim ond ar ôl ymgynghori â'r Gwasanaethau Cyfreithiol y mae'n cael ei wneud.

412 Rhaid bod tystiolaeth ysgrifenedig o bob addasiad yn unol â'r contract mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaethau Cyfreithiol.

## Rhan 8
## Eithriadau i Reolau Gweithdrefn Contract

42.1 Eithriad i'r Rheolau Gweithdrefn Contract yw caniatâd i osod contract heb gydymffurfio ag un neu fwy o'r Rheolau Gweithdrefn Contract. Gellir caniatáu eithriad i'r Rheolau Gweithdrefn Contract yn ddarostyngedig i amodau. **Bydd angen awdurdod i ddyfarnu contract yn ychwanegol at yr eithriad i'r Rheolau Gweithdrefn Contract.**

42.2 Dim ond y Cyfarwyddwr Adnoddau, neu ei ddirprwy awdurdodedig, mewn ymgynghoriad â'r Gwasanaeth Caffael, a ddirprwyir gan y Cabinet i ganiatáu eithriad i'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn. Rhaid i geisiadau am eithriadau ddilyn y broses a nodwyd gan y Gwasanaeth Caffael, rhaid eu gwneud yn ysgrifenedig a'u llofnodi gan y cyfarwyddwr gwasanaeth, a rhaid iddynt gynnwys yr eithriad y gofynnir amdano a'r cyfiawnhad dros yr eithriad. Ni fydd eithriadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contract **byth** yn cael eu rhoi yn ôl-weithredol. 42.3 Bydd y Gwasanaeth Caffael yn cadw cofrestr o'r holl eithriadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contract.

42.4 Ni chaniateir cais am eithriad i Reolau Gweithdrefn Contract, i ganiatáu i gontract gael ei osod heb gystadleuaeth wirioneddol heb reswm grymus. Nid yw diffyg amser a achosir gan gynllunio ymlaen llaw annigonol yn rheswm cryf ac ni fydd yn caniatáu eithriad i'r Rheolau Gweithdrefn Contract. Os caniateir cais i osod contract heb gystadleuaeth wirioneddol, rhaid i'r cyfarwyddwr gwasanaeth sy'n gyfrifol am y contract ddangos nad yw'r pris a gafwyd yn fwy na phris y farchnad a bod y contract yn cynrychioli'r gwerth gorau am arian.

42.5 Nid oes angen eithriad i'r Rheolau Gweithdrefn Contract o dan yr amgylchiadau a ganlyn:

- gosod archeb o dan gontract corfforaethol neu Gytundeb Fframwaith presennol;
- fel rhan o gontract partneru sy'n ystyried cyfres o gontractau gydag un cyflenwr, ar yr amod bod y gyfres gyfan wedi'i hawdurdodi'n briodol fel sy'n briodol ar gyfer ei gwerth;
- mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor osod contract yn wahanol i'r Rheolau Gweithdrefn Contract hyn;
- rhoi archeb o dan drefniant, y mae'r Cyngor yn aelod cyswllt ohono, sydd wedi mynd trwy broses gystadleuol sy'n cydymffurfio â rheolau'r UE; neu
- ar ôl cwblhau gweithdrefn ddyfynbris, mae rhai neu'r dyfynbrisiau i gyd yn fwy na £25,000, ar yr amod nad yw'r dyfynbris a dderbynnir yn fwy na £30,000.

Ar gyfer caffaeliadau islaw'r trothwy, gall y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol benderfynu nad oes angen ceisio dyfynbrisiau cystadleuol

neu gynnal proses dendro gystadleuol.  Gall penderfyniad o'r fath fod yn briodol am y rhesymau a ganlyn:

- Mae gofynion penodol y gwasanaeth yn gymhleth neu o natur arbenigol sy'n golygu bod y dewis o ddarparwr gwasanaeth yn gyfyngedig;
- Mae wedi dod yn fater brys i ddarparu'r gwasanaeth oherwydd argyfwng neu o ganlyniad i amgylchiadau annisgwyl na ellir eu priodoli i'r Cyngor; neu
- Pan fydd person, yn unol ag adran 57 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, yn mynegi dewis am lety cartref gofal penodol, rhaid i'r Cyngor ddarparu neu drefnu i ddarparu'r llety a ffefrir.

Yn yr achosion cyfyngedig hyn, bernir bod caniatâd i osod contract heb gydymffurfio ag un o fwy o'r Rheolau Gweithdrefn Contract."

ATODIAD 1

GWASANAETHAU CYFUNDREFN CYFFYRDDIAD YSGAFN

Gwasanaethau Atodlen 3 (PCR 2015)
(Cyfundrefn Cyffyrddiad Ysgafn ar gyfer contractau sy'n uwch na throthwy'r UE)

| Disgrifiad Trosfwaol | Meysydd wedi'u cynnwys |
|---|---|
| Iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau cysylltiedig | * Cyflenwi gwasanaethau personél cymorth yn y cartref<br>* Cyflenwi gwasanaethau personél nyrsio<br>* Cyflenwi gwasanaethau personél meddygol<br>* Cartrefi preifat gyda phobl a gyflogir<br>* Gwasanaethau gweithlu i aelwydydd, Gwasanaethau staff asiantaeth i aelwydydd, Gwasanaethau staff clerigol i aelwydydd, Staff dros dro i aelwydydd, Gwasanaethau cymorth cartref a Gwasanaethau domestig<br>Gofal Cymdeithasol<br>Gofal Nyrsio |
| Gwasanaethau gweinyddol, cymdeithasol, addysgol, gofal iechyd a diwylliannol | * Gwasanaethau gweinyddu, amddiffyn a nawdd cymdeithasol<br>* Gwasanaethau addysg a hyfforddiant<br>* Gwasanaethau trefnu arddangosfeydd, ffeiriau a chyngresau<br>* Gwasanaethau trefnu seminar<br>* Gwasanaethau digwyddiad<br>* Gwasanaethau trefnu digwyddiadau diwylliannol<br>* Gwasanaethau trefnu gwyliau<br>* Gwasanaethau trefnu partïon<br>* Gwasanaethau trefnu sioeau ffasiwn<br>* Gwasanaethau trefnu ffeiriau ac arddangosfeydd |
| Gwasanaethau nawdd cymdeithasol gorfodol | |
| Gwasanaethau budd-daliadau | |
| Gwasanaethau cymunedol, cymdeithasol a phersonol eraill gan gynnwys gwasanaethau a ddarperir gan undebau llafur, sefydliadau gwleidyddol, cymdeithasau ieuenctid a gwasanaethau sefydliadau aelodaeth eraill | |
| Gwasanaethau crefyddol | |
| Gwasanaethau gwestai a bwytai | * Gwasanaethau arlwyo ar gyfer cartrefi preifat<br>* Gwasanaethau pryd ar glud<br>* Gwasanaethau cyflenwi prydau bwyd<br>* Gwasanaethau arlwyo<br>* Gwasanaethau arlwyo ar gyfer mentrau trafnidiaeth |

| | |
|---|---|
| | * Gwasanaethau arlwyo ar gyfer mentrau neu sefydliadau eraill<br>* Gwasanaethau arlwyo ysgolion<br>* Gwasanaethau ffreutur<br>* Gwasanaethau ffreutur a gwasanaethau caffeteria eraill a gyfyngwyd i gwsmeriaid penodol<br>* Gwasanaethau rheoli ffreutur<br>* Gwasanaethau prydau ysgol |
| Gwasanaethau cyfreithiol (i’r graddau nad ydynt wedi’u heithrio gan reol: 10(1)(d) | |
| Gwasanaethau gweinyddol eraill a gwasanaethau’r llywodraeth | |
| Darparu gwasanaethau i'r gymuned | |
| Darparu gwasanaethau cysylltiedig, diogelwch y cyhoedd a gwasanaethau achub i'r graddau nad ydynt wedi'u heithrio gan reoliad 10(1)(h) | |
| Gwasanaethau ymchwilio a diogelwch | * Gwasanaethau ymchwilio a diogelwch<br>* Gwasanaethau Diogelwch<br>* Gwasanaethau monitro larwm<br>* Gwasanaethau gwarchod<br>* Gwasanaethau gwyliadwriaeth<br>* Gwasanaethau systemau olrhain<br>* Gwasanaethau olrhain y sawl sy’n ffoi<br>* Gwasanaethau patrol<br>* Gwasanaethau rhyddhau bathodynnau adnabod<br>* Gwasanaethau ymchwilio a gwasanaethau asiantaeth ditectif<br>* Gwasanaethau Graffoleg<br>* Gwasanaethau dadansoddi gwastraff |
| Gwasanaethau rhyngwladol | * Gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau a chyrff all-diriogaethol<br>* Gwasanaethau penodol i sefydliadau a chyrff rhyngwladol |
| Gwasanaethau post | * Gwasanaethau post a thelathrebu<br>* Gwasanaethau post a chludwyr<br>* Gwasanaethau post<br>* Gwasanaethau post yn ymwneud â phapurau newydd a chyfnodolion<br>* Gwasanaethau post yn ymwneud â llythyrau<br>* Gwasanaethau post yn ymwneud â pharseli<br>* Post office counter services<br>* Gwasanaethau cownter swyddfa bost<br>* Gwasanaethau post-restante<br>* Post swyddfa fewnol a gwasanaethau negesydd |

| | |
|---|---|
| Gwasanaethau amrywiol | * Gwasanaethau ail-lunio teiars<br>* Gwasanaethau gofaint |